AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ERYRI

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

Ar gyfer y cyfnod o'r 1af o Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2013

Hydref 2013

CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD 5

2 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL A CHRYNODEB GWEITHREDOL 7

3 CYD-DESTUN CYFFREDINOL 9

4 Y STRATEGAETH DDATBLYGU 12

5 GWARCHOD, GWELLA A RHEOLI YR AMGYLCHEDD NATURIOL 16

6 DIOGELU A GWELLA'R DREFTADAETH DDIWYLLIANNOL 20

7 HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY 24

8 CEFNOGI ECONOMI WLEDIG GYNALIADWY 40

9 HYRWYDDO HYGYRCHEDD A CHYNHWYSEDD 47

ATODIAD 1: FFRAMWAITH MONITRO ARFARNIAD CYNALADWYEDD 52

ATODIAD 2 CYNNYDD CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL 63

ATODIAD 3: CYNNYDD AR SAFLEOEDD TAI A DDYRANNWYD 64

1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) ym mis Gorffennaf 2011, mae gwaith wedi dechrau ar fonitro'r CDLl i ddangos i ba raddau y mae'r polisïau yn cael eu cyflawni. Hwn yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol ffurfiol cyntaf (AMB) ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2012 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2013. Bydd yr AMB yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2013. Mae'r adroddiad monitro hefyd yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod o'i fabwysiadu (Gorffennaf 13, 2011) hyd 31 Mawrth 2012 i roi darlun llawnach am y cynnydd a wnaed ers ei fabwysiadu. Mewn rhai achosion, mae hi wedi bod yn anodd i nodi tueddiadau penodol oherwydd y swm cyfyngedig o ddata sydd ar gael, ac o ganlyniad mae rhai o'r casgliadau yn rhagarweiniol iawn a bydd angen eu gwirio wedi cyfnod hirach o fonitro.

1.2 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn anelu at ddangos i ba raddau y mae strategaeth Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cael ei gyflawni, a yw'r polisïau yn gweithio neu ddim, neu lle mae 'gwagle' o ran polisi. Mae hyblygrwydd o fewn system y Cynllun Datblygu Lleol yn galluogi i addasiadau a diwygiadau i gael eu gwneud i bolisïau, gan wneud y cynllun yn berthnasol ac yn ymatebol i newid. Gall addasiadau o'r fath, os oes angen, gael eu gwneud yn yr adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol a drefnwyd ar gyfer 2015/2016.

1.3 Mae'r adroddiad hwn wedi ei osod i ddilyn strwythur tebyg i ddogfen datganiad ysgrifenedig Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac mae'n defnyddio'r un penawdau a'r penodau. Mae pob adran yn nodi amcanion perthnasol y CDLl , ac unrhyw faterion cyd-destunol allweddol sy'n codi yn ystod y cyfnod monitro. Mae astudiaethau achos hefyd wedi cael eu cynnwys ar ddiwedd pob pennod i ddarparu enghreifftiau o sut mae polisïau wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.4 Cafodd yr adroddiad monitro ei ystyried gan aelodau Fforwm Eryri a'i gytuno gan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013. Mae'r adroddiad hefyd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Dangosyddion, Targedau a Lefelau Sbarduno

1.5 Mae dangosyddion, targedau a lefelau sbarduno wedi cael eu hadnabod er mwyn asesu perfformiad polisïau ac amcanion. Mae'r dylanwadau allanol sydd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod yn cael eu nodi hefyd. Mae'r sbardunau sydd wedi'u cynnwys yn y drefn fonitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor eang y bydd angen i'r adolygiad o'r Cynllun fod.

1.6 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau a darparu trosolwg o berfformiad, mae’r dangosyddion a’r canlyniadau allweddol yn cael eu hamlygu fel a ganlyn:

Mae targedau / amcanion yn cael eu cyflawni.	+
Nid yw targedau wedi cael eu cyflawni neu mae perfformiad yn wael, ond does dim pryderon ynghylch gweithrediad polisi / amcanion.	+/-
Mae monitro yn mynegi’r meysydd sy’n peri pryder ynghylch gweithrediad polisi / amcanion.	–
Ni ellir dod i gasgliad oherwydd data cyfyngedig	

1.7 Rhoddwyd ystyriaeth i'r dangosyddion craidd perthnasol a nodir yn Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru (Mehefin 2006). Mae rhai o'r rhain wedi cael eu cynnwys, ac eraill wedi eu haddasu fel dangosyddion lleol i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, ac eraill wedi eu dileu fel rhai amherthnasol. Cytunwyd ar bob un o'r dangosyddion monitro yn ystod Archwiliad y Cynllun yn 2011. Cynhwysir dangosyddion o newid ychwanegol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn Adroddiad Cyflwr y Parc 2009 a fydd yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd.

1.8 Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys cyfeiriad at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a allai gael dylanwad rhagweithiol ar weithrediad y polisïau.

Monitro Arfarniad Cynaladwyedd

1.9 Mae dadansoddiad wedi ei wneud ar sut y mae'r Cynllun yn cyfrannu at Werthuso Cynaliadwyedd. Mae hyn wedi cael ei gynnwys fel atodiad 1. Ystyrir nad oedd unrhyw faterion sylweddol sy'n peri pryder wedi codi yn ystod y cyfnod monitro.

2 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL A CHRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae’r canfyddiadau allweddol hyn yn seiliedig ar gyfnod monitro cymharol fyr yn unig ac felly mae'n anodd nodi unrhyw dueddiadau penodol. Bydd angen eu cymharu â data monitro yn y dyfodol cyn y gall unrhyw gasgliadau pendant o ddifrif gael eu llunio. Fodd bynnag, mae'r casgliadau ar gyfer yr adroddiad monitro ffurfiol cyntaf yn mynegi:

- Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sy'n tanseilio dibenion statudol y Parc Cenedlaethol na pholisïau strategol y Cynllun.

- Mae polisïau CDLlE wedi bod yn effeithiol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau.

- Mae nifer y tai a gwblhawyd wedi aros yn debyg i gyfraddau cwblhau cyfartalog blaenorol megis 57 uned ar gyfer 2012-13.

- Mae gan y Cynllun fwy na digon o dir ar gyfer cyflenwi tai (9.3 mlynedd Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd (ATTC) 2012).

- Mae nifer y caniatadau cynllunio newydd a roddwyd ar gyfer unedau tai yn 42 uned mewn cyfnod o ddirwasgiad tai.

- Nifer y tai fforddiadwy a ganiatawyd yn 2012-13 oedd 23 uned (55%) sydd yn agos at y targed uchelgeisiol a osodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri, tra bo’ nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 37 uned (65%) sydd mewn gwirionedd yn uwch na'r targed blynyddol a osodwyd (26 o unedau).

- Mae'r strategaeth datblygu gofodol yn cael ei gyflawni gyda chaniatâdau a chwblhadiadau yn unol â'r targedau a osodwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae dosbarthiad y tai newydd a gwblhawyd yn yr aneddiadau gwasanaeth (Harlech, Trawsfynydd, Aberdyfi, Betws y Coed a Llanberis) yn isel, sef 4% o'i gymharu â'r targed o 11% a’r rheswm pennaf yw oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol a thirweddol yn yr aneddiadau hynny, sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer gymharol fach o ganiatâdau cynllunio sy'n bodoli yn barod.

- Yn sgil dynodiad Parth Menter Eryri yn Nhrawsfynydd a Llanbedr mae potensial i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy newydd. Gan nad yw'r safleoedd wedi cael eu dyrannu'n ffurfiol yng NgDLl Eryri bydd angen iddynt gael eu hasesu yn erbyn polisïau'r Cynllun presennol a bydd angen i unrhyw ddyraniad penodol o'r safleoedd gael eu hystyried mewn adolygiad o'r Cynllun.

- Cafodd 9 o Gynlluniau Trydan Dŵr / Hydro eu caniatáu yn 2012-13 gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol sy’n creu incwm ychwanegol i'r ffermydd.

- Mae 4 annedd Mentrau Gwledig wedi cael eu cwblhau yn 2012-13 ac mae 4 arall wedi cael caniatâd cynllunio.

- Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd wedi bod yn isel.

- Mae cyfleuster newydd ar gyfer ymwelwyr wedi cael ei gwblhau yng Nghoed y Brenin, sy'n gartref i rwydwaith o lwybrau beicio mynydd ardderchog, yn ogystal â chaniatad ar gyfer cyfleuster newydd yn Ogwen sy'n darparu porth deniadol i Gwm Idwal.

- Cafwyd 3 cynnig a fydd yn gwella ansawdd safleoedd carafannau sefydlog a chabanau gwyliau o fewn y Parc Cenedlaethol, a chafwyd 9 o geisiadau am amryw welliannau i safleoedd teithiol a gwersylla yn ystod 2012-13

- Prin iawn neu ychydig o ddatblygiad o bwys a ddigwyddodd o ran cael effaith ar bolisïau eraill yn y Cynllun.

3 CYD-DESTUN CYFFREDINOL

Ceisiadau cynllunio 2012 – 2013

3.1 Fe wnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bennu 371 o geisiadau cynllunio yn ystod 2012-13, ac yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r nifer a gymeradwyir yn parhau i fod yn uchel megis 89%.

3.2 Yr oedd y math o geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn 2012-13 fel a ganlyn ac roedd yn debyg iawn i 2011-12:

Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd yn ôl math 2012-13



3.3 Yn dilyn mabwysiadu CDLlE ar 13 Gorffennaf 2011, mae'r Awdurdod wedi bod yn monitro yr holl benderfyniad cynllunio a wnaed yn ôl y math o ddatblygiad a gynigiwyd yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r siart canlynol yn rhoi darlun cliriach o'r math o ddatblygiad sydd wedi cael eu pennu yn ystod 2012 -2013, sydd, unwaith eto yn dangos patrwm tebyg i 2011-12.



Defnyddio Polisiau Cynllun Datblygu Lleol Eryri

3.4 Mae 40 o bolisïau yn y CDLl. Cafodd 34 eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystod 2012-13. Dim ond 6 sydd heb gael eu defnyddio o fewn y cyfnod monitro. Mae'r polisïau nad ydynt wedi cael eu defnyddio yn cynnwys SPB: Datblygiad Mawr, SPCh: Isadeiledd Cymdeithasol a Ffisegol mewn Datblygiadau newydd, SPE: Polisi Diogelu Mwynau, DP8: Diogelu Safleoedd heb eu dynodi, DP12: Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol a DP13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn eu lle i ddelio â materion penodol nad ydynt yn cael eu trin yn rheolaidd o fewn y Parc Cenedlaethol.

Apeliadau

3.5 Yr oedd nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod yn isel iawn o'i gymharu â chyfanswm y nifer o geisiadau a benderfynwyd arnynt. Yn ystod 2012-13, cafodd 18 o apeliadau eu penderfynu gyda dim ond 4 o'r apeliadau hyn yn cael eu caniatáu ac 1 yn cael ei rhannol ganiatau / rhannol wrthod gan arwain at gyfradd llwyddiant o 72%[1]. Nid yw'r un o'r penderfyniadau apêl lwyddiannus wedi

[1] Cyfartaledd y canran o apeliadau a wrthodwyd yn 2012 ar gyfer Cymru gyfan oedd (65%)

dadlau ynghylch priodoldeb neu gadernid polisïau'r CDLl ac nid yw'n ymddangos bod yna batrwm lle nad yw rhai polisïau yn cael eu cefnogi gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Yr oedd y pedwar achos yn geisiadau lle roedd barn yr Arolygydd yn wahanol i farn yr Awdurdod, gydag un apêl yn seiliedig ar ystyriaethau dylunio, dau yn anghydfodau ynglŷn ag amodau a'r pedwerydd yn ymwneud â thyrbin gwynt a'i effaith ar gymeriad ac ymddangosiad y Parc Cenedlaethol.

Penderfyniadau yn unol â pholisïau CDLl Eryri

3.6 Yn ystod 2012-13, cafodd 3.7% o benderfyniadau cynllunio eu gwneud yn groes i argymhelliad y swyddog. Barnwyd bod y penderfyniadau hyn wedi cael eu gwneud oherwydd y gwahaniaeth wrth ddehongli polisïau ac nid yw’n cael ei hystyried yn fater arwyddocaol nac yn wyriad oddi wrth y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Nid yw'n ymddangos bod yna batrwm sy'n dod i'r amlwg yn sgil y penderfyniadau a wnaed yn groes i argymhelliad y swyddog mewn perthynas â mater penodol ac felly nid yw'n awgrymu bod angen eglurder a diwygio polisïau penodol. Mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â materion cynllunio ar estyniadau bach ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhai sy’n arwyddocaol.

4 Y STRATEGAETH DDATBLYGU

Nod y Strategaeth:

4.1 Sut ydym ni'n bodloni prif nod y cynllun, ei amcanion strategol a'r strategaeth dwf?

Cyd-destun

Pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol

4.2 Mae pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol yn rhoi ffocws strategol pwysig i'r CDLlE, gan eu bod yn helpu i ddiffinio graddfa a lleoliad datblygiadau i'r dyfodol yn yr ardal. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

4.3 Yn ogystal, mae gan y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i:

- Geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol o fewn ardal y Parc.

4.4 **Datganiad Polisi Y Parc Cenedlaethol –** Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddatganiad polisi drafft ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru 'Golwg tua'r Dyfodol' yn cael ei gynnal yn ystod haf 2013. Bydd angen cymryd goblygiadau'r datganiad polisi terfynol i ystyriaeth mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

4.5 Mae diogelu a gwella'r amgylchedd yn hollbwysig mewn Parc Cenedlaethol tra'n darparu cyfle i adeiladu tai fforddiadwy newydd ar gyfer cymunedau lleol hefyd a chadw eu bywiogrwydd economaidd. Mae diogelu a gwella'r amgylchedd hefyd o fudd cadarnhaol wrth ddatblygu'r economi amgylcheddol yn seiliedig ar dwristiaeth gynaliadwy a gweithgareddau awyr agored.

4.6 Fe gafodd Land Use Consultants (LUC) eu comisiynu gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, John Griffiths, i gynnal ymchwil fel rhan o'r adolygiad ehangach o system gynllunio Cymru. Mae canfyddiadau'r adroddiad, 'Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru' yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o gael Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol er mwyn darparu cyd-destun polisi cyson ar gyfer cynllunio o fewn tirwedd ddynodedig statudol.

4.7 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod yna ganfyddiad bod cynllunio yn rhwystr i ddatblygiad masnachol (busnes), ond prin fu unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer arwynebedd llawr newydd ar gyfer dibenion cyflogaeth a gyflwynwyd yn y Parc Cenedlaethol ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu[2]. Mae'r polisïau yn y CDLl yn hybu twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cynnal cymunedau sy'n ffynnu. Efallai mai'r rheswm

[2] Mae hyn yn ymwneud â gofod llawr cyflogaeth ac nid yw'n cynnwys cyflogaeth trwy amaethyddiaeth neu ddatblygiad twristiaeth

dros y nifer isel o geisiadau sy'n ymwneud â chyflogaeth yw'r ffaith bod twf yr economi yn parhau i fod yn araf.

4.8 Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod yn rhagweithiol wrth geisio cyfleoedd economaidd-cymdeithasol cynaliadwy i gydgordio gyda'r dirwedd ddynodedig. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol baratoi Strategaeth Datblygu Cynaliadwy sydd wedyn yn cael ei fabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA). Mewn ymateb i'r adroddiad mae'r tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol yn bwriadu cyflwyno cais am gymorth o'r Gronfa Gwella Cynllunio er mwyn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Cynaliadwy. Pwrpas y CCA hwn fydd nodi'r mathau o Ddatblygiad Cynaliadwy a fydd yn cael ei groesawu yn y Parciau Cenedlaethol, y rhesymau pam, a'r meini prawf allweddol derbynioldeb sy'n gysylltiedig â'r economi, y gymuned a'r amgylchedd.

4.9 Mae LUC hefyd wedi cael eu comisiynu gan 'Parciau Cenedlaethol Cymru' a'r tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol i gynnal astudiaeth ar y cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydweithredu rhwng y tri Pharc Cenedlaethol. Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol nifer o enghreifftiau da o weithio ar y cyd ac mae ganddynt y cyfle i ddatblygu a chryfhau'r arferiad o weithio ar y cyd ar gynllunio a chymryd mantais o'r buddion a ddaw yn sgil hyn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2013.

Datblygiad Cynaliadwy

4.10 **Bil Cenedlaethau'r Dyfodol** - Ar 3 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail ymgynghoriad ar gynigion i ddeddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn darparu manylion pellach ar y cynigion i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac i greu corff datblygu cynaliadwy annibynnol. Disgwylir y bydd y Mesur newydd (mae'r teitl wedi cael ei ddiwygio i 'Bil Cenedlaethau'r Dyfodol') yn cael ei gyflwyno yn ystod Haf 2014 a bydd angen eu cymryd i ystyriaeth mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol ac mewn unrhyw newidiadau a fydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun.

4.11 Ymgynghorwyd yn gynnar yn 2012 **ar ddiwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru i gryfhau ac egluro'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.** Mae'r newidiadau a gynigir yn cael eu cefnogi gan y Parc Cenedlaethol oherwydd maent yn egluro ac yn cryfhau'r ymrwymiad tuag at ddatblygu cynaliadwy.

4.12 Datblygu cynaliadwy yw ail ffocws allweddol y cynllun. Mae pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol, ynghyd ag egwyddorion cynaliadwyedd yn sail i'r amcanion yng NghDLlE. Mae Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy yn sicrhau bod pob datblygiad yn gyson â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'r ddyletswydd. Mae pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol, a gefnogir gan **yr egwyddor Sandford** yn gosod fframwaith clir ar gyfer cynllunio datblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r egwyddor Sandford yn datgan os yw'n ymddangos bod gwrthdaro anghymodlon rhwng y pwrpasau statudol, bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi i'r pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

4.13 Er bod y pwrpasau a'r ddyletswydd yn sylfaenol i'r penderfyniadau a weir, nid oes dangosydd cyfredol yn y fframwaith monitro sy'n cyfeirio at y defnydd o Bolisi Strategol A (SP: A). Mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol, bydd yn bwysig i

adolygu ein defnydd o SP: A, yn enwedig ar gyfer unrhyw achosion prin lle mae gwrthdaro rhwng y dibenion anghymodlon yn dod yn amlwg. Ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri nid oes cais cynllunio wedi ymglymu nac wedi torri yr Egwyddor Sandford na Pholisi Strategol A ac nid oes unrhyw wrthdaro y gwyddwn amdano yn y maes hwn wedi digwydd yn ystod y cyfnod monitro presennol.

4.14 Bydd y CCA Datblygu Cynaliadwy arfaethedig a fydd yn cael ei baratoi yn 2013-14 gan y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn darparu cyd-destun ehangach ar gyfer rheoli datblygu i geisio annog datblygiad sy'n dda i fusnes, y gymuned a'r amgylchedd.

Graddfa Datblygiad

4.15 O gymharu ag ardaloedd awdurdodau cynllunio eraill mwy, mae graddfa'r datblygiad arfaethedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn gymedrol. Ystyrir bod graddfa a lleoliad datblygiad yn bwysig wrth asesu effaith y datblygiad ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. O ystyried amgylchedd sensitif y Parc a maint cymunedau lleol, bydd datblygiadau mwy o faint yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd a natur gynhenid amgylchedd y Parc. Mae polisi cenedlaethol yn glir ynghylch datblygiad mawr hynny ydi ni ddylai ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Mae hyn wedi ei nodi ym Mholisi Strategol B: Datblygiad Mawr. Nid oes ceisiadau cynllunio wedi cael eu cymeradwyo yn groes i Bolisi Strategol B: Datblygiad Mawr ers iddo gael ei fabwysiadu.

Strategaeth Datblygu Gofodol

4.16 Mae poblogaeth Eryri yn fach ac yn ddaearyddol wasgaredig. Mae'r Strategaeth Datblygu Gofodol yn ceisio cynnal hyfywedd a bywiogrwydd cymunedau lleol mewn ffordd gynaliadwy sy'n briodol i'r Parc Cenedlaethol. Mae angen i lefel datblygiad i fod gymesur â maint a phoblogaeth aneddiadau unigol a'u gallu i ymdopi â datblygiadau pellach. Nod Polisi Strategol C yw cyfeirio datblygiad o bob math i'r lleoliad mwyaf priodol. Mae Polisi Strategol C yn caniatáu ar gyfer datblygu tai newydd, cyflogaeth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau yn ôl eu dynodiad yn yr hierarchaeth aneddiadau, gyda'r nod cyffredinol o wneud cymunedau yn fwy hunan gynhaliol. Bala a Dolgellau yw'r canolfannau gwasanaeth lleol lle bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau sydd a wnelo tai a datblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn digwydd. Mae Aneddiadau Gwasanaeth yn cael eu hystyried fel rhai sy’n meddu ar y gallu i ychwanegu at y gwasanaethau a ddarperir gan y Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol a thirweddol yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol ac mewn Aneddiadau Gwasanaeth, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ymdopi â datblygiadau newydd. Felly mae peth o'r capasiti hwn, wedi cael ei ddargyfeirio tuag at yr Aneddiadau Eilaidd sef y pentrefi mwyaf. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod tai, cyflogaeth ar raddfa fach a datblygiadau eraill mewn Aneddiadau Eilaidd, Aneddiadau Llai ac weithiau yng nghefn gwlad agored yn gynaliadwy lle mae cyfleoedd priodol yn codi. Mae’r holl geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ers mabwysiadu'r CDLlE wedi'u penderfynu yn unol â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol ac, felly, yn cydymffurfio â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y cynllun.

Ardoll Seilwaith Cymunedol - Diweddariad

4.17 Mae'r Ardoll (Lefi) Seilwaith Cymunedol yn ardoll newydd lle gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis i godi tâl ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal. Daeth 'Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010' i rym ar 6 Ebrill 2010. Nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, felly mae'r rheoliadau wedi cael eu gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr.

4.18 Nid yw awdurdodau cynllunio lleol wedi eu rhwymo i gyflwyno rhestrau codi tâl ac fe allant ddewis parhau i ddibynnu ar rwymedigaethau cynllunio trwy gytundebau 106 i ddarparu’r seilwaith angenrheidiol. Fodd bynnag, ar ôl Ebrill 2014 neu 2015 (yn ddibynnol ar amseriad trefniant trosiannol) bydd eu gallu i wneud hynny yn gyfyngedig. Mae'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) yn rhoi cyfnod trosiannol ar ôl hynny ni all rhwymedigaethau cynllunio a gynlluniwyd i gasglu cyfraniadau cyfun o 5 neu fwy o ddatblygiadau gael ei ddefnyddio i ddarparu seilwaith y gellid ei ariannu o ASC, neu pan fabwysiadi’r yr ardoll yn lleol pe bai hyn yn digwydd cyn diwedd y cyfnod trosiannol. Wrth asesu a yw pum rhwymedigaethau cynllunio ar wahân eisoes wedi cael eu llunio ar gyfer prosiect seilwaith penodol neu fath o seilwaith, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol edrych yn ôl dros gytundebau sydd wedi cael eu llunio ers 6 Ebrill 2010. Mae'r rheoliadau terfynol ar ASC eto i gael eu cyhoeddi, ac felly efallai y bydd y wybodaeth a roddir uchod yn ddarostyngedig i newidiadau pellach.

4.19 Ers mis Ebrill 2010 ni chafwyd unrhyw gyfraniad tuag at seilwaith drwy gytundebau adran 106 ac mae hyn yn anhebygol o fod yn fater i'r Awdurdod gan nad yw graddfa gyffredinol datblygiad yn gorlwytho'r seilwaith presennol. Nid yw'r Awdurdod yn ystyried, ar hyn o bryd, bod y ASC yn briodol i ardal y Parc Cenedlaethol oherwydd bydd datblygiad newydd yn fach o ran graddfa a bydd yn cael effaith leiaf bosibl ar wasanaethau cymunedol ehangach. Hefyd y mae'n bryderus y bydd cymhwyso ardoll ar gynigion llai yn effeithio ar eu hyfywedd a allai atal datblygiad newydd rhag cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cadw'r mater dan adolygiad ac ar hyn o bryd mae’n gweithio gydag awdurdodau cyfagos sy’n cymhwyso’r y ASC ar yr ardaloedd cyfagos.

4.20 Nid yw tai fforddiadwy yn cael ei bennu ar hyn o bryd fel seilwaith, ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl ar gyfer Ardoll Seilwaith Cymunedol a bydd yn parhau i gael eu cymhwyso drwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106 oni bai bod y rheoliadau terfynol yn nodi fel arall. Felly, nid oes angen newid polisïau y CDLl ar hyn o bryd.

Rhwymedigaethau Cynllunio CCA

4.21 Mabwysiadodd yr Awdurdod Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Ymrwymiadau Cynllunio ym mis Chwefror 2012. Mae’r cynnydd a wnaed ar baratoi CCA eraill yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2.

5 GWARCHOD, GWELLA A RHEOLI YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae’r rhan hon yn cyflawni ymateb i’r amcanion a ganlyn:

Sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu safleoedd cadwraeth natur dynodedig ac yn sicrhau diogelu a gwella amrywiaeth a'r amlder o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau a ddiogelir.

I reoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu, gan gynnwys gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau'r defnydd o ynni a chynllunio datblygiadau derbyniol gyda golwg ar beryglon llifogydd.

Annog, lle bo'n briodol, ddefnydd o adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ar gyfer pŵer ynni adnewyddadwy ar raddfa fach cynlluniau cynhyrchu i ddiwallu anghenion lleol heb beri niwed i 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.

Gwarchod a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ei geoamrywiaeth a dŵr, pridd ac ansawdd aer.

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.

Hyrwyddo lleihau gwastraff a sicrhau darpariaeth o gyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff integredig cynaliadwy yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol

Ymgynghoriadau

5.1 Ym mis Ebrill 2013, sefydlwyd corff amgylcheddol newydd i Gymru – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) drwy uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

5.2 Mae Bil yr Amgylchedd yn symud yn ei flaen ac mae’r Awdurdod wedi bod mewn gweithdai ac wedi cyflwyno sylwadau ar ddarpariaethau’r Bil.

Canllawiau Cynllunio Atodol

5.3 Ni fu unrhyw gynnydd o ran adolygu Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, er bod y Mapiau Adnoddau Mwynau a’r Mapiau Diogelu Agregau wedi’u cyhoeddi. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio wrth adolygu mapiau CDLIE.

5.4 Â’r Awdurdod yn wynebu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am brosiectau micro-gynhyrchu, hydro yn bennaf, bu’n ymgynghori ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar Ynni Adnewyddadwy a Datblygiadau Carbon Isel, ac mae’n gobeithio cyhoeddi’r rhain yn derfynol erbyn mis Rhagfyr 2013. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y CCA ar ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Mae'r Awdurdod, mewn partneriaeth â Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, hefyd am roi cais am Grant Gwella Cynllunio i ddatblygu Astudiaeth Cynhwysedd a Sensitifrwydd Tirwedd ar y cyd. Y nod yw rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr ac asiantau am oblygiadau posibl y datblygiadau ar dirweddau gogledd orllewin Cymru a sut i osgoi, lliniaru neu ddigolledu unrhyw effeithiau andwyol.

MF01

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Ardal o arfordir annatblygedig 3,499 ha	Dim colled sylweddol o arfordir annatblygedig	1 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at golled sylweddol am 3 blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad Rhoddwyd caniatâd cynllunio am bont newydd yn lle Pont Briwet. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw golled sylweddol i'r Arfordir Annatblygedig yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddwyd sawl caniatâd cynllunio arall am fân ddatblygiadau, ac eto ni fydd gostyngiad sylweddol yn ardal yr Arfordir Annatblygedig.			

MF02

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Ardal AGA, ACA, SoDdGA neu safleoedd Ramsar a gollwyd i ddatblygiadau	Dim colled net sylweddol	Dim colled	+
Dadansoddiad Dim datblygiadau yn arwain at golled.			

MF03

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Gwelliannau treftadaeth naturiol a Natura 2000 drwy A106 / amodau neu ffactorau eraill	Cynnydd yn yr ardaloedd a gafodd eu gwella		○
Dadansoddiad Nid oedd unrhyw un o'r caniatadau cynllunio a roddwyd angen gwelliannau i safleoedd Natura 2000 naill ai drwy amodau neu Gytundebau A106.			

MF04

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau (yn ôl categori NCT 15) heb eu dyrannu yn y CDLl a ganiatawyd yng ngorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni profion NCT 15	Dim datblygiad wedi'i ganiatáu sy'n gwrthdaro â NCT 15 (heb gynnwys rhai eithriadau a ystyriwyd yn NCT 15)	1 datblygiad	+
Dadansoddiad O fewn gorlifdir C1 a C2, roedd caniatadau cynllunio yn bennaf am fân newidiadau / addasiadau i'r adeiladau presennol. Ni chafwyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sensitif.			

MF05

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
% o ddatblygiadau newydd â Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)	100% o'r holl ddatblygiadau o 3 neu fwy o dai	30% neu fwy o ddatblygiadau newydd o 3 neu fwy o dai heb SUDS.	○
Dadansoddiad Nid yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn gweithio ar ffordd o gasglu'r wybodaeth hon a bydd ar gael y flwyddyn nesaf.			

MF06

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiatawyd	Ardal o dir cyflogaeth B2 (metr sgwâr) a ddatblygwyd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff	Nid oes cyfleusterau newydd wedi cael caniatâd erbyn 2013	+
Dadansoddiad Ni chafwyd unrhyw geisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Sicrhaodd Cyngor Gwynedd ganiatâd cynllunio ôl-weithredol i ymgymryd â gweithgareddau trosglwyddo gwastraff yn ei gyfleuster rheoli gwastraff presennol yn ei ddepo yn Nolgellau.			

MF07

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Ardal o dir agored (68.5 ha) a lletem werdd (54.7 ha)	Dim colled net sylweddol	1 datblygiad yn arwain at golled sylweddol am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn arwain at golled sylweddol mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad Rhoddwyd caniatâd i ychwanegu estyniad bach ar ystafelloedd newid Clwb Rygbi'r Bala. Nid oedd hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y Lletem Las. Roedd nifer o fân geisiadau deiliaid tai, ond nid oedd unrhyw un ohonynt wedi arwain at golled sylweddol o Dir Agored / Lletem Las.			

MF08

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro ceisiadau cynllunio a phenderfyniadau o fewn y Lletem Las	Dim datblygiadau amhriodol	1 datblygiad yn arwain at golli natur agored	+
Dadansoddiad Rhoddwyd caniatâd i ychwanegu estyniad bach ar ystafelloedd newid Clwb Rygbi'r Bala. Ystyriwyd bod hyn yn briodol o ystyried y ffaith bod y Lletem Las yn yr ardal hon yn cynnwys caeau rygbi ynghyd â meysydd ymarfer. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer nifer o fân ddatblygiadau deiliaid tai. Nid yw hyn wedi arwain at golli'r natur agored.			

MF09

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Paratoi a mabwysiadu CCA ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth	Erbyn 2012		+
Dadansoddiad CCA wedi'u mabwysiadu yn Ebrill 2012. Mae'r dangosydd hwn bellach yn ddiangen, ac ni chaiff ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn nesaf.			

MF10

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Paratoi a mabwysiadu CCA ar Dirweddau Eryri	Erbyn 2012		+/-
Dadansoddiad Ar ôl cyhoeddi drafft ymgynghori, ystyriwyd bod angen ymgymryd â rhagor o waith, a bu oedi â'r cyhoeddiad terfynol yn sgil hynny. Rhagwelir y bydd y CCA diwygiedig yn cael ei fabwysiadu yn ystod chwarter cyntaf 2014. Wedyn bydd y dangosydd yn ddiangen.			

MF11

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro cynnydd y Cynllun Rheoli Traethlin	Monitro cynnydd		+
Dadansoddiad Dim datblygiadau wedi'u dwyn ymlaen yn ystod y cyfnod monitro. Cynhaliwyd nifer o weithdai i ystyried effaith codiad yn lefel y môr ar gymunedau arfordirol yn y dyfodol (50 – 100 mlynedd).			

Astudiaeth achos

Cynllun Pŵer Trydan Dŵr, Canolfan Astudiaethau Plas Tan y Bwlch, Maentwrog

Ym 1884, Plas Tan y Bwlch oedd un o'r tai cyntaf yng Nghymru i gyflenwi trydan gyda phŵer dŵr, ond fe ddaeth y cynllun hwnnw i ben pan agorodd Gorsaf Ynni Dŵr Maentwrog ym 1928. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n rhedeg y Plas fel Canolfan Astudiaethau, wedi datblygu cynllun ynni dŵr 28kw newydd, ac fe ddisgwylir iddo gynhyrchu 100,000kwh o drydan ar gyfartaledd bob blwyddyn, sy'n ddigon i fodloni 70% o anghenion trydan y ganolfan. Bydd hyn yn arwain at arbed dros 70 tunnell o CO_2 y flwyddyn, a fydd yn lleihau ôl-troed carbon yr Awdurdod gan 22.3% yn erbyn cyfanswm yr allyriadau ar gyfer 2011/2012. Roedd yn rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddylunio'r cynllun er mwyn osgoi niweidio cynefinoedd sensitif, gardd o ddiddordeb hanesyddol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig.

6 DIOGELU A GWELLA'R DREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

Mae'r rhan hon yn cyflawni ymateb i'r amcanion a ganlyn:

Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal, gan gynnwys olion archeolegol a thirweddau hanesyddol, a hyrwyddo datblygiadau sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol drwy sicrhau bod datblygiadau'n cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Nodweddion Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

Bil Treftadaeth

6.1 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Treftadaeth i Gymru yn 2015 a fydd yn datblygu cyfres o fesurau modern ar gyfer ein hamgylchedd hanesyddol. Nod y Bil fydd sicrhau bod safleoedd ac adeiladau hanesyddol yn cael eu diogelu i'r safon uchaf bosibl, er mwyn cynnal cymeriad tirweddau a threfi hanesyddol Cymru a helpu pobl i gael mynediad i, deall a gofalu am eu hardaloedd a'r hanes, a gwerthfawrogi pwysigrwydd treftadaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y papur gwyn yn yr haf 2013. Rhaid ystyried canlyniad y Bil Treftadaeth newydd mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol, ac wrth adolygu'r Cynllun.

MF12

Dangosyddion	**Targedau Polisi**	**Lefel Sbarduno**	
Paratoi a mabwysiadu CCA ar yr Amgylchedd Hanesyddol	Erbyn 2013		+/-
Dadansoddiad: Byddir angen i'r CCA ystyried unrhyw gynigion newydd a gyflwynir yn y Bil Treftadaeth ac felly mae paratoi y CCA wedi cael ei oedi. Mae'r swyddogion yn parhau i ymgymryd â gwaith cwmpasu ar gyfer y CCA ar yr Amgylchedd Hanesyddol, gyda'r nod o baratoi drafft erbyn gwanwyn 2014.			

MF13

Dangosyddion	**Targedau Polisi**	**Lefel Sbarduno**	
Paratoi a mabwysiadu CCA ar Ddylunio Cynaliadwy - lleol wahanol	Erbyn 2012		+/-
Dadansoddiad: Mae'r CCA hwn wrthi'n cael ei ddrafftio, ond oherwydd gwaith CCA blaenoriaeth arall nid yw'n debygol o gael ei gwblhau cyn diwedd 2013.			

MF14

Dangosyddion	**Targedau Polisi**	**Lefel Sbarduno**	
Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gydag Asesiadau Ardal cyfredol (14)	Cwblhau Asesiadau Ardal erbyn 2012 a'u hadolygu bob 5 mlynedd		+/-
Dadansoddiad: Mae 13 o'r 14 Asesiad Ardal Cadwraeth bellach wedi'u cwblhau ar ffurf ddrafft.			

MF15

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gyda Chynlluniau Rheolaeth cyfredol	Cwblhau Cynlluniau Rheolaeth a'u hadolygu bob 5 mlynedd.		
Dadansoddiad: Yn sgil y gwaith a wnaed yn ddiweddar i gwblhau asesiadau ardaloedd cadwraeth, mae nifer y cynlluniau rheolaeth yr un fath. Mae cynlluniau rheolaeth wedi'u cwblhau ar gyfer Dolgellau a Harlech. Mae Cynllun Rheolaeth Safle Treftadaeth y Byd hefyd sy'n ymdrin â'r ardal amgylchynol, sy'n cynnwys Castell Harlech.			

MF16

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer yr adeiladau rhestredig mewn perygl (323)	Lleihau nifer yr adeiladau rhestredig mewn perygl a monitro'r rheswm am y cynnydd o ran nifer.		
Dadansoddiad 2012: Roedd nifer yr adeiladau mewn perygl yn 325.			+
Dadansoddiad 2013: Mae nifer yr adeiladau mewn perygl yn 320, sy'n llai na'r llynedd. Mae'r Awdurdod wedi rhoi grant i bum adeilad er mwyn eu dwyn yn ôl i gyflwr sy'n golygu nad ydynt bellach mewn perygl.			

MF17

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro ceisiadau cynllunio mewn, ac yn ymyl Parciau a Gerddi Hanesyddol a allai gael effaith.			
Dadansoddiad 2012: Rhoddwyd 11 caniatâd cynllunio am ddatblygiadau amrywiol o fewn parth clustogi 100m o barciau a gerddi hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.			+
Dadansoddiad 2013: Cafwyd 13 cais cynllunio am ddatblygiadau amrywiol o fewn parth byffer 100m o barciau a gerddi hanesyddol, a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer pob un ohonynt. Rhoddwyd ystyriaeth i'w heffaith ar Barciau a Gerddi Hanesyddol, ac ni ystyrir bod unrhyw un o'r ceisiadau yn cael effaith negyddol arnynt.			

MF18 +19

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer yr Henebion Rhestredig mewn perygl. Monitro ceisiadau cynllunio a allai gael effaith ar Heneb Gofrestredig	Lleihau'r nifer mewn perygl		
Dadansoddiad: Cadw sy'n gyfrifol am y cofnod o'r Henebion Rhestredig mewn perygl. Bu 18 o			+

geisiadau o fewn parth byffer 100m o Heneb Restredig. Roedd un cais i greu llwybr beicio ac adeiladu tair pont. Nid oedd y llwybr arfaethedig yn effeithio ar yr Heneb Restredig. Mae'r gweddill wedi bod yn fân geisiadau ac ni ystyrir eu bod yn effeithio ar Heneb Restredig.	

MF20

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y safleoedd archeolegol, Henebion Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth wedi'u gwarchod neu wella gan gynigion datblygu	Holl gynigion datblygu	1 datblygiad yn methu â gwarchod neu wella am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu â gwarchod neu wella mewn 1 flwyddyn (mae angen cysylltu ag Asesiadau AC a Chynlluniau Rheolaeth fel uchod)	+
Dadansoddiad 2013: Yn sgil y nifer uchel iawn o safleoedd archeolegol o bwysigrwydd amrywiol yn y Parc Cenedlaethol, mae'n anodd mesur y dangosydd hwn. Mae'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau nad yw datblygiadau yn cael effaith negyddol ar safleoedd archeolegol, Henebion Rhestredig neu Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Fenter Treftadaeth Treflun yn Nolgellau yn cael budd cadwraeth cadarnhaol iawn ar y Dref drwy ddod ag Adeiladau Rhestredig yn ôl i ddefnydd, sydd yn ei dro'n gwella'r ardal gadwraeth.			

MF21

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau preswyl sy'n cyrraedd targed Cenedlaethol y Cod Cartrefi Cynaliadwy	Holl ddatblygiadau i fodloni'r gofyniad		+
Dadansoddiad 2013: Roedd pob datblygiad preswyl newydd wedi cwrdd â tharged Cenedlaethol y cod cartrefi cynaliadwy.			

MF22

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau amhreswyl dros 1000 metr sgwâr ar safle dros 1 ha sy'n cwrdd â'r targed Cenedlaethol ar gyfer safon BREEAM	Holl ddatblygiadau i fodloni'r gofyniad		+
Dadansoddiad 2103: Mae Ysgol newydd Llanegryn wedi ei dylunio i gwrdd â safon 'ardderchog' BREEAM			

Astudiaethau Achos

Adeilad Rhestredig, Harlech

Rhoddodd yr Awdurdod Ganiatâd Adeilad Rhestredig i ailadeiladu ac ailwampio adeilad rhestredig Gradd II ym mis Medi 2012. Roedd yr adeilad wedi bod yng nghategori un ar gofrestr adeiladau mewn perygl yr Awdurdod ers rhai blynyddoedd. Yn fwy diweddar, disgynnodd rhan o do'r adeilad a chysylltodd y perchennog â'r Awdurdod i ofyn am ganiatâd i ddymchwel y rhan hwnnw o'r adeilad. Wrth archwilio'r adeilad, gwelwyd fod yno glwyd ystlumod pedol lleiaf, a rhaid oedd ei ddiogelu. Rhoddodd yr Awdurdod gymorth ariannol i ailwampio'r adeilad. Yn ogystal â hynny, yn sgil pwysigrwydd yr adeilad fel clwyd ystlumod, fe wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Chronfa Economaidd-Gymdeithasol Magnox gyfraniad tuag at gostau'r gwaith ar yr adeilad ynghyd â'r mesurau cadwraeth ar gyfer ystlumod. Roedd y mesurau cadwraeth yn angenrheidiol i ddiogelu'r ystlumod am eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig at fioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, cafodd yr adeilad ei dynnu oddi ar y gofrestr adeiladau mewn perygl.

Datblygiad Ysgol Newydd, Llanegryn

Ym mis Gorffennaf 2012, rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd am ysgol newydd yn Llanegryn. Cyflwynwyd amod a oedd yn datgan na ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad oni bai ei fod yn cyd-fynd yn llwyr â'r adroddiad archeolegol a gyflwynwyd gerbron yr Awdurdod. Yn dilyn y mesurau lliniaru archeolegol a wnaed drwy gloddio ar y safle, gwelwyd canlyniadau diddorol ac annisgwyl. Darganfuwyd gweddillion aelwydydd ar y safle yn ogystal â chrochenwaith Rhufeinig. Roedd y dull dyddio radio carbon ar y samplau o'r safle wedi dangos eu bod yn dyddio o'r Oesoedd Canol Cynnar. Ychydig iawn a wyddys am aneddiadau o'r cyfnod hwnnw. Er mai ychydig iawn o nodweddion a ddarganfuwyd, maent yn rhai prin ac ystyrir eu bod yn ddarganfyddiad pwysig yn genedlaethol.

7 HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY

Mae’r rhan hon yn cyflawni ymateb i’r amcanion a ganlyn:

Cefnogi datblygiadau priodol sy'n cwrdd ag anghenion tai'r gymuned leol, gan roi ystyriaeth arbennig i dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

Cefnogi darpariaeth a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol priodol ar draws yr ardal.

Annog cyfleusterau hamdden cymunedol ble maent yn cwrdd ag anghenion lleol ac nid ydynt yn gwrthdaro â 'Nodweddion Arbennig' y Parc.

Hyrwyddo mesurau i annog datblygiadau sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i gael effaith ar yr iaith Gymraeg

Y Farchnad Dai yn ei Chyfanrwydd

7.1 Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol wedi aros yn gymharol gyson dan amgylchiadau economaidd anodd. Mae’n lleol o ran natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr bach lleol a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach o lai na phum uned. Nid oes adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithgar yn y farchnad ac felly ychydig iawn o dai marchnad agored a thai fforddiadwy sy’n cael eu hadeiladu ar sail hapfasnachol. Yr oedd y nifer o unedau preswyl a roddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn y 9 mis cyntaf ar ôl mabwysiadiad (Gorffennaf 2011 hyd at ddiwedd Mawrth 2012) yn isel iawn, o bosibl oherwydd amodau y farchnad gyffredinol a’r addasiadau sy’n angenrheidiol i gydymffurfio â pholisïau newydd y cynllun. Fodd bynnag, mae lefel y gweithgarwch o ran tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol wedi bod yn gymharol uchel yn 2012-13 o ystyried yr amgylchedd benthyca anodd a'r gostyngiad graddol parhaus yn y grant tai cymdeithasol. Mae nifer yr anheddau marchnad agored yn cael eu hatal rhag symud ymlaen yn ystod y cam cyn ymgeisio gydag ymgeiswyr sylweddoli yn gynnar y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofyniad tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Mae’r galw a’r cyflenwad yn debygol o wella yn sgil amgylchiadau economaidd gwell a benthycwyr yn llacio'r gofynion benthyca, yn enwedig ar gyfer anghenion lleol am dai fforddiadwy.

Angen Am Dai Fforddiadwy

7.2 Ers yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Eryri, mae Grŵp Ymchwil Gogledd Cymru wedi adolygu y ffigyrau angen tai yn Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru (AMTLlGOC) ar lefel Awdurdod Unedol.

7.3 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd wrth ddatblygu cofrestrau tai ar y cyd yn ogystal â gwell dealltwriaeth o’r fethodoleg i gyfrifo’r angen am dai. Yn anffodus, nid yw hi wedi bod yn bosibl i wahanu'r ffigurau Asesiad Marchnad Dai Lleol (AMTLl) ar gyfer lefel Awdurdod y Parc Cenedlaethol oherwydd dyw’r data sylfaenol ddim ond ar gael ar lefel wardiau. Nid yw ffin y Parc Cenedlaethol yn cyfateb i ffiniau lefel wardiau. Mae ffigurau diweddaraf AMTLl ar lefel Awdurdod Unedol (cyfrifyddiad Chwefror 2011) yn amcangyfrif mai y nifer o gartrefi a fydd angen help i ddod o hyd i dai fforddiadwy bob blwyddyn yng Nghonwy (sy'n cynnwys anghenion cymdeithasol ac anghenion canolradd) yw 125. Gan ddefnyddio gwybodaeth elfennol pro rata 4% wedi ei rannu ar gyfer y rhan o Gyngor Conwy o fewn y Parc Cenedlaethol deuir at angen blynyddol o 5. Mae nifer yr aelwydydd a fydd angen help i ddod o hyd i dai fforddiadwy bob

blwyddyn o fewn Gwynedd (sy'n cynnwys anghenion cymdeithasol ac anghenion canolradd) yn 335. Unwaith eto, gan ddefnyddio gwybodaeth pro rata elfennol gyda rhaniad 18% ar gyfer y rhan o Gyngor Gwynedd o fewn y Parc Cenedlaethol deuir at ffigwr angen blynyddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 60. Mae hyn yn rhoi angen blynyddol amcangyfrifedig o 65 ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.

7.4 Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol is na'r ffigurau AMTLl blaenorol a oedd ar gael yn ystod yr Archwiliad i GCDLl Eryri ac mae'n ymddangos bod yr Awdurdod yn iawn i fynegi nifer o bryderon ynghylch dibynadwyedd y data ffigurau yr AMDLl blaenorol yn ystod sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad. Mae ffigurau diweddaraf AMTLl yn nes at lefel yr angen a adnabuwyd gan yr Awdurdod a nodwyd drwy gyfrwng yr Asesiad o Angen am Dai ar Lefel Gymunedol a wnaeth ddarogan y byddai'r angen am dai fforddiadwy newydd yn gyffredinol rhwng 400 a 450 o anheddau.

Rhagamcanion Poblogaethau a Thai

7.5 Mae'r gofyniad tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth (2003 a 2006), gallu amgylcheddol yr ardal i ddarparu mwy o dai, y nifer a gwblhawyd yn y gorffennol a chyfradd y datblygiad sy'n briodol ac yn gyraeddadwy ar gyfer statws gwarchodedig y Parc Cenedlaethol.

7.6 Ers yr archwiliad cyhoeddus i Gynllun Datblygu Lleol Eryri, cafodd yr amcanestyniadau aelwydydd 2008 eu cyhoeddi ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, roedd y rhain yn sylweddol uwch na amcanestyniadau 2006. Cafodd amcanestyniadau poblogaeth 2011 eu cynhyrchu ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Unedol ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'r amcanestyniadau aelwydydd i fod i gael eu rhyddhau ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r Awdurdod yn disgwyl am gyhoeddiad amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2011 a fydd yn seiliedig ar amcanestyniaau canol-blwyddyn diwygiedig a ffigurau poblogaeth gwirioneddol o gyfrifiad 2011. Bydd angen cymryd amcanestyniadau 2011 ynghyd a chapasiti yr ardal i gynnig lle ar gyfer tai ystyriaeth mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol ac mewn adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol.

Adolygiad o Gytundebau Adran 106

7.7 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, bod benthycwyr bellach yn fwy gofalus eu hagwedd tuag at forgeisi hunan-adeiladu yn gyffredinol ac at eiddo sy'n destun cyfyngiadau megis cytundebau adran 106. Yn unol â gofynion benthycwyr mae'r Awdurdod wedi ceisio newid ei Gytundebau Adran 106 yn unol â'r gwaith a wnaed yn genedlaethol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor y Benthycwyr Morgeisi. Er gwaethaf bod cytundebau 106 yn fwy hyblyg i fenthycwyr, maent yn parhau i fod yn amharod i gymryd risg gyda benthyca i brynwyr tro cyntaf yn arbennig ar gyfer tai anghenion lleol fforddiadwy ac yn arbennig ar brosiectau hunan adeiladu. Mae'r Awdurdod yn ystyried erbyn hyn nad yw'n bosibl gwneud unrhyw newidiadau pellach i gytundebau 106 heb gyfaddawdu polisïau'r CDLl. Mae copïau o'r cytundebau 106 safonol wedi bod ar gael ar y wefan ar gyfer ymgeiswyr i drafod yn gynnar gyda benthycwyr a gyda'r Awdurdod os oes angen.

Cynnydd a wnaed ar safleoedd a ddyrannwyd

7.8 Ynghlwm fel atodiad 3 mae'r amserlen ar gynnydd datblygiad safleoedd tai a ddyrannwyd yn y CDLl. Fel rhan o'r gwaith ar argaeledd tir ar gyfer tai cysylltwyd gyda phob perchennog ac asiantau ac fe wnaed ymholiadau ar ddatblygiadau tebygol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae pob un ond 3 safle yn dangos rhyw lefel o

weithgaredd. Hefyd, mae’r tirfeddianwyr wedi cael eu gwahodd i drafod eu dyheadau datblygu gyda'r Awdurdod a fydd yn darparu gwasanaeth ymgynghori a chyngor cynhwysfawr cyn cyflwyno cais.

Llety Annecs

7.9 Mae nifer y ceisiadau cynllunio am letai anecs wedi cynyddu yn 2012-13 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol gyda chyfanswm o 12 o geisiadau (10 wedi’u cymeradwyo) o gymharu â dim ond 3 neu 4 cais yn 2010/11 a 2011/12. Er mwyn sicrhau nad yw'r polisi llety anecs yn cael ei ddefnyddio i osgoi darparu tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol, mae'r Awdurdod wedi paratoi nodyn arweiniol mewnol i sicrhau bod y polisi ddim ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ei ddiben.

Drafft TAN 20 - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

7.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Nodyn Cyngor Technegol 20 Drafft. Mae'r pwyslais yn y ddogfen newydd ar gymryd yr iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a chynnwys asesiad o fewn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwnaed hyn wrth baratoi'r CDLlE. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi dweud y dylai mwy o fanylion technegol a gwybodaeth gael ei gynnwys yn y Nodyn Cyngor Technegol Drafft a'r ystyriaeth a roddir i werthuso effaith ceisiadau cynllunio penodol ar yr iaith nad ydynt yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Os yw'r NCT terfynol yn sylweddol yr un fath, ni ystyrir y byddai Polisi 18 presennol: Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau angen cael ei ddiwygio.

MF23

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Cyflenwad Tir ar gyfer Tai	Cynnal cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai	Cyflenwad tir ar gyfer tai yn disgyn yn is na'r gofyniad 5 mlynedd	+
Dadansoddiad: Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. **2011-2012** Mae Cyd Astudiaeth 2011 Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLA) yn dangos, yn seiliedig ar y dull cwblhadiadau yn y gorffennol roedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 7.6 blynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai. **2012-13** Mae'r Astudiaeth Argaeledd Tir gyfer Tai 2012 yn dangos bod cyfanswm o 809 (+171 o safleoedd bach) o unedau â chaniatâd cynllunio ym mis Ebrill 2012 gyda 494 o'r rhain wedi’u hadnabod o fewn y cyflenwad 5 mlynedd o dir. Mae Cyd Astudiaeth 2012 Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn dangos, yn seiliedig ar y dull gweddilliol bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 9.3 blynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai. Felly felly nid oes angen adolygu'r cyflenwad tir ar gyfer tai. **Casgliad**: Nid oes unrhyw faterion yn codi.			

MF24

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y caniatadau a roddwyd a thai newydd a gwblhawyd yn flynyddol	Cyfanswm y tai a gwblhawyd rhwng 51-55 o unedau'r flwyddyn 2012-2015 = 153-165 2016-2019 = 204-220	+ / - 20% am dair blynedd yn olynol 2012 - 2015 o dan 122 neu dros 198 2016 - 2019 o dan 163 neu dros 264	
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Rhoddwyd caniatad cynllunio i 5 o anheddau preswyl. Mae'r ffigur hwn yn cael ei ystyried yn isel, efallai oherwydd y dirywiad yn y farchnad dai yn genedlaethol ac o bosibl yr addasiadau i bolisïau newydd. **2012-13** Yn ystod 2012-13, mae 42 o anheddau preswyl wedi cael caniatâd cynllunio. O ystyried y dirywiad yn y farchnad dai yn genedlaethol a'r ffigwr isel o 5 o unedau yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y cyfnod ers mabwysiadu (Gorffennaf 2011 - Mawrth 2012) mae hyn yn arwydd o beth gwydnwch yn y farchnad leol. Hefyd bu cynnydd da gyda'r rhaglen ddatblygu cyfran fawr o'r safleoedd a ddyrannwyd yng NghDLl Eryri (gweler atodiad 3). Cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd ar gyfer y cyfnod Ebrill 2012 hyd ddiwedd Mawrth 2013 oedd 57 o unedau sy'n gyson â'r hyn a gwblhawyd yn y gorffennol. **Casgliad** Mae nifer y caniatadau newydd ar gyfer y cyfnod 2012-13 yn gymharol uchel o ystyried cyfnod o ddirwasgiad tai. Mae hefyd mwy o weithgaredd ar safleoedd hŷn sydd â chaniatâd cynllunio sy'n bodoli'n barod. Mae cyfanswm blynyddol nifer y tai a gwblhawyd (57) yn gyson â thueddiadau yn y gorffennol ac yn debyg i'r gyfradd gwblhau gyfartalog ddisgwyliedig o 55 uned y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.			+

MF25

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
% o ganiatadau a roddwyd a thai newydd a gwblhawyd yn flynyddol ym mhob haen anheddiad	Canolfannau Gwasanaeth Lleol (28%) Aneddiadau Gwasanaeth (11%) Aneddiadau Eilaidd (45%) Aneddiadau Llai (6%) Addasiadau (10%)	+ / - 20% am dair blynedd yn olynol 22-34% 9-13% Dim mwy na 53% Dim mwy na 7% Dim mwy na 12%	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Oherwydd y nifer fach o dai a gafodd ganiatâd o fis Gorffennaf 2011- Ebrill 2012 nid oedd yn bosibl i ddadansoddi tuedd benodol.			

2012-13 O'r 42 o unedau annedd preswyl a gafodd ganiatâd cynllunio, yr oedd 12 uned (29%) wedi eu lleoli yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol, 2 uned (5%) wedi cael eu lleoli mewn Aneddiadau Gwasanaeth, 18 uned (43%) wedi cael eu lleoli mewn anheddiad eilaidd, 4 uned (10%) wedi eu lleoli mewn aneddiadau llai a 6 uned (14%) wedi eu lleoli yng nghefn gwlad agored. O'r 4 o unedau a gafodd ganiatâd mewn aneddiadau llai eu maint, yr oedd 3 uned ar gyfer newid defnydd a throsi ac 1 uned amnewid yn annedd newydd, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer unedau adeiladu o'r newydd mewn aneddiadau llai. O'r 6 o unedau a gafodd caniatâd yng nghefn gwlad agored, yr oedd 4 yn anheddau menter wledig, 1 yn newid defnydd a'r llall yn addasiad. Mae'r holl geisiadau cynllunio am dai newydd a dderbyniwyd ers mabwysiadu'r CDLIE wedi'u penderfynu yn unol â Pholisi Strategol C : Strategaeth Datblygu Gofodol ac felly yn cydymffurfio â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y Cynllun. **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** O'r 45 o unedau a gwblhawyd cafodd 33% eu hadeiladu mewn canolfannau gwasanaethau lleol, 3% mewn aneddiadau gwasanaeth, 32% mewn aneddiadau eilaidd, 11% mewn aneddiadau llai o faint a 21% yn addasiadau tu allan i unrhyw anheddiad cydnabyddedig . **2012-13** O'r 57 o unedau a gwblhawyd yn 2012-13 yr oedd 33 uned (58%) wedi eu hadeiladu mewn canolfannau gwasanaethau lleol, 2 uned (4%) mewn aneddiadau gwasanaeth, 13 uned (23%) yn yr aneddiadau eilaidd, 1 uned (2%) mewn aneddiadau llai ac 8 uned (14%) yng nghefn gwlad agored. O'r 8 uned a gwblhawyd yng nghefn gwlad agored, yr oedd 4 yn anheddau menter wledig, yr oedd dau yn newid defnydd o lety gwyliau i dai fforddiadwy a'r ddau arall oedd trosiad ac annedd newydd a gymeradwywyd cyn i Gynllun Datblygu Lleol Eryri gael ei fabwysiadu. **Casgliad** Mae'r ffigurau uchod yn amlygu'r ffaith bod y strategaeth yn cael ei chyflawni, gyda'r caniatâdau a'r cwblhadiadau yn unol â'r targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer monitro Strategaeth Ddatblygu Ofodol y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod unrhyw ganiatâd a gwblhawyd yn yr aneddiadau gwasanaeth yn gymharol isel a'r rheswm pennaf yw oherwydd y cyfyngiadau amgylcheddol a thirweddol yn yr aneddiadau hynny ac o ganlyniad nifer cymharol isel o ganiatadau sy'n bodoli.	

MF26

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt bob blwyddyn	26 o unedau tai fforddiadwy i gael caniatâd cynllunio bob blwyddyn	+ / - 30% Llai na 18 uned wedi cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Allan o'r 5 annedd preswyl a gafodd ganiatâd cynllunio, yr oedd 4 o'r rhain yn			

unedau tai fforddiadwy. **2012-13** Allan o'r 42 o anheddau preswyl newydd a gafodd ganiatâd cynllunio ers mabwysiadu mae 23 (55%) o'r rhain wedi bod yn unedau tai fforddiadwy. O'r 23 o unedau tai fforddiadwy, yr oedd 12 yn dai newydd gan Gartrefi Conwy, 6 uned yn rhan o'r 50% o gyfraniad tai fforddiadwy ar y safle yn Plas yn Dre, Y Bala, 4 uned yn newid defnydd a darparwyd 1 uned trwy addasiad. Mae'r ffigurau tai fforddiadwy yn cael eu hystyried yn gymharol uchel o ystyried y farchnad dai ddirwasgedig genedlaethol, yr amgylchiadau benthyca anodd a'r gostyngiad graddol mewn grant tai cymdeithasol. Fodd bynnag mae argaeledd morgeisi yn parhau i fod yn broblem, a bydd angen iddo wella er mwyn cynyddu caniatâd am dai fforddiadwy. Fel soniwyd yn flaenorol, mae'r Awdurdod wedi cymryd camau cadarnhaol wrth adolygu'r cytundebau Adran 106, cysylltu â thirfeddianwyr i drafod eu dyheadau datblygu, a gweithio mewn partneriaeth gyda galluogwyr tai gwledig Gwynedd a Chonwy a Chymdeithasau Tai i drafod cyfleoedd i ddwyn safleoedd addas ymlaen. O'r 19 caniatâd sy'n weddill, yr oedd 15 yn unedau anheddau marchnad agored a 4 uned yn anheddau mentrau gwledig. O blith y 15 o anheddau marchnad agored yr oedd 4 uned eisoes wedi cael caniatâd amlinellol cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu , yr oedd 6 uned yn rhan o'r 50% o gyfraniad y farchnad agored ar safle Plas yn Dre yn Y Bala, 1 uned yn dod ymlaen o ganlyniad i ddiffyg hyfywedd (felly arweiniodd hynny at dŷ marchnad agored gyda swm gohiriedig), cafwyd 3 uned oedd o ganlyniad i newid defnydd tafarn / annedd i annedd preswyl ac 1 uned yn annedd newydd yn lle'r hen un. **Casgliad** Mae nifer y caniatadau newydd ar gyfer tai fforddiadwy yn gymharol uchel o ystyried y farchnad dai ddirwasgedig genedlaethol a'r amgylchiadau benthyca anodd. Mae nifer yr unedau fforddiadwy a gymeradwywyd yn agos at y targed uchelgeisiol iawn a osodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri sy'n dangos bod amcanion y polisi yn cael eu cyflawni.	

MF27

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd y flwyddyn	26 o unedau tai fforddiadwy i'w cwblhau bob blwyddyn.	+/- 30% Llai na 18 uned wedi cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Nifer yr unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn 7 uned **2012-13** Nifer yr unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn 2012-13 oedd 37 o unedau. O'r 37 o unedau a gwblhawyd, yr oedd 31 yn dai newydd, 3 yn addasiadau a 3 yn newid defnydd anecs / llety gwyliau i dai fforddiadwy. Cafodd 30 o unedau tai fforddiadwy newydd eu cwblhau ar safle a ddyrannwyd yn Y Bala.			

Casgliad Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn uwch na'r targed a osodwyd. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i 30 o unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn Y Bala gan Gymdeithas Tai Clwyd ar dir a ddyrannwyd yn y CDLl.	

MF28

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer yr unedau marchnad sy'n dod ymlaen fel o ganlyniad i ddiffyg-hyfywedd (h.y. unedau nad ydynt yn hyfyw ac sydd wedi arwain felly at dai marchnad agored gyda swm gohiriedig).		10 neu fwy o unedau'r flwyddyn wedi cael caniatâd cynllunio am dair blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad: Daeth 1 uned annedd marchnad agored ymlaen o ganlyniad i ddiffyg hyfywedd (trosi o gapel i annedd), gan arwain at ddaliad swm gohiriedig. **Casgliad**: Mae nifer y anheddau marchnad agored o ganlyniad i ddiffyg hyfywedd yn llawer is na'r lefel sbarduno.			

MF29

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar y flwyddyn trwy safleoedd ar hap.	10 uned y flwyddyn	+ / - 30% Llai na 7 uned wedi eu caniatáu bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Ni chafodd unrhyw unedau tai fforddiadwy newydd ganiatâd cynllunio. **2012-13** Rhoddwyd caniatad cynllunio ar gyfer 13 o unedau ar safleoedd ar hap yn 2012-13. **Casgliad** Mae'r ffigur yn uwch na'r targed blynyddol			

MF30

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd y flwyddyn trwy safleoedd ar hap.	10 uned y flwyddyn	+ / - 30% Llai na 7 uned wedi eu cwblhau bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+/-
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012**			

2 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau ar safleoedd ar hap. **2012-13** Nid oes unrhyw unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau drwy gyfrwng safleoedd ar hap **Casgliad** Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd ar safleoedd ar hap yn isel, ond mae'r nifer a ganiateir ar safleoedd ar hap yn 2012-13 yn uwch na'r targed a osodwyd. Ni ellir dod at unrhyw gasgliad o'r swm cyfyngedig o ddata. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn adnabod tueddiadau	

MF31

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt bob blwyddyn trwy addasiadau.	3 uned y flwyddyn	+ / - 30% Llai na 2 uned wedi cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+/-
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Cafodd 2 o unedau tai fforddiadwy ganiatâd cynllunio drwy gyfrwng trosiadau. **2012-13** Rhoddwyd caniatad cynllunio ar gyfer 1 uned tai fforddiadwy trwy gyfrwng trosiadau **Casgliad** Y ffigur ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf 2011-Ebrill 2012 yn cyd-fynd â'r targed. Fodd bynnag, dim ond 1 uned fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio drwy gyfrwng trosiad yn 2012-13. Fel y soniwyd yn flaenorol, canlyniad 1 caniatâd cynllunio ar gyfer trosi (gapel i annedd) oedd arwain at annedd marchnad agored oherwydd diffyg hyfywedd, gan arwain at daliad swm gohiriedig. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r gost ychwanegol o addasu adeiladau traddodiadol a bydd yn parhau i fonitro nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarperir trwy gyfrwng trosiadau.			

MF32

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd y flwyddyn trwy addasiadau.	3 uned y flwyddyn	+ / - 30% Llai na 2 uned wedi eu cwblhau bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Ni chwblhawyd addasiadau tai fforddiadwy. **2012-13** 3 uned a gwblhawyd trwy drosiadau **Casgliad**: Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r targed.			

MF33

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro nifer y tai fforddiadwy mewn aneddiadau llai	2 fesul anheddiad yn ystod oes y Cynllun	2 uned fesul anheddiad yn cael eu cymryd i fyny. Mwy na dwy uned fesul anheddiad yn cael eu cymryd i fyny yn ymwneud ag angen. Dim cymryd i fyny ar ôl 4 blynedd mewn unrhyw anheddiad unigol.	+/-

Dadansoddiad:

Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012
Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai fforddiadwy mewn anheddiad llai.

2012-13
Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu unedau tai fforddiadwy newydd mewn anheddiad llai. Yr unig uned a gafodd ganiatâd mewn anheddiad llai oedd 1 uned fforddiadwy trwy newid defnydd o dŷ cyhoeddus i fflat yn Capeleulo.

Casgliad
Nid yw'r Awdurdod wedi derbyn cais cynllunio ar gyfer adeiladu uned breswyl newydd mewn aneddiadau llai o faint, ac felly mae'n anodd iawn i ddod i gasgliad ar y dangosydd hwn. Efallai bod diffyg ceisiadau wedi'u derbyn ar gyfer datblygiadau newydd o fewn aneddiadau llai o ganlyniad i allu pobl i fenthyca i adeiladu tai fforddiadwy newydd, y galw isel presennol ar gyfer tai newydd mewn aneddiadau llai, ac efallai bod y nifer o bobl sy'n gymwys ar gyfer tai fforddiadwy angen lleol mewn aneddiadau llai yn isel.

MF34

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt a gwblhawyd bob blwyddyn ar safleoedd eithriedig. Nid yw'r safleoedd eithriedig yn cael eu cynnwys yn y ffigwr galw am dai.	1 cynllun yn cael ei gwblhau bob 4 blynedd	Llai nag 1 cynllun wedi'i gwblhau bob 4 blynedd.	+

Dadansoddiad:

Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012
2 o unedau tai fforddiadwy unigol wedi cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig ac 1 uned wedi'i chwblhau.

2012-13
Dim unedau tai fforddiadwy wedi cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig, fodd bynnag, 1 uned tai fforddiadwy wedi cael ei gwblhau ar safle eithriedig yn 2012-13.

Casgliad
Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r targed

MF35

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro meintiau'r safleoedd sy'n dod ymlaen a nifer yr unedau a gynigir ar bob safle.			
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Roedd yr holl unedau tai a gafodd ganiatâd yn unedau sengl. **2012-13** Allan o'r 17 caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer anheddau preswyl, roedd 13 o'r caniatâdau cynllunio am unedau sengl, 1 caniatâd am 2 uned, 1 caniatâd am 3 uned, a 2 caniatâd a roddwyd am 12 uned. **Casgliad** Mae cyfran uchel o ganiatâdau a roddir o fewn y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod ar blotiau sengl.			

MF36

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro targedau tai fforddiadwy a throthwyon y safleoedd sy'n dod ymlaen.			
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Pob uned a ddaeth ymlaen wedi bod safleoedd uned sengl **2012-13** Pob un o'r unedau a oedd â gofyniad tai fforddiadwy wedi cyrraedd y targed ar gyfer tai fforddiadwy (ar wahân i un trosiad (o gapel i annedd). Mae safle-hap o 12 uned yn Y Bala wedi cwrdd â'r targed o 50% o dai fforddiadwy ar y safle. Mae'r safle eiddo cyhoeddus a ddyrannwyd ym Mhenmachno wedi cael caniatâd cynllunio am 100% o dai fforddiadwy a fydd yn cael ei ddarparu gan Cartrefi Conwy (gyda Grant Tai Cymdeithasol). **Casgliad** Mae'r targedau yn cael eu cyflawni			+

MF37

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Cwblhewch yr LHMA i asesu p'un a yw Sipsiwn a theithwyr angen llety yn yr ardal. Os nodir angen, ystyried safleoedd addas sy'n deillio o Astudiaeth Safleoedd Gwynedd.	Nodi p'un a oes angen safle teithwyr parhaol neu dros dro o fewn y Parc Cenedlaethol. Asesiad Safle, monitro ac adolygu parhaus.	Cwblhau asesiad o'r angen am safle parhaol neu dros dro erbyn (2012). Methu â chwrdd ag angen a nodwyd.	+

Dadansoddiad: Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ar Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AoALlSaTh) ar lefel ranbarthol. Mae'r AoALlSaTh yn darparu gwybodaeth i alluogi awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth llety sipsiwn a theithwyr (ar gyfer safleoedd trawsteithiol parhaol neu fannau aros dros dro) sy'n angenrheidiol yn yr ardal astudiaeth. Mae'r AoALlSaTh wedi nodi'r angen am safleoedd parhaol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o angen yn y AoALlSaTh ar gyfer dyrannu safle parhaol yn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae astudiaeth y AoALlSaTh hefyd wedi nodi'r angen am safleoedd dros dro yng Ngogledd Cymru. Gall y rhain fod yn safleoedd tramwy, gydag ystod gymharol lawn o gyfleusterau lle y gall arhosiad o hyd at dri mis gael eu caniatáu, neu fannau aros dros dro gyda darpariaeth fwy cyfyngedig, lle gall arhosiad gael ei gyfyngu i 28 diwrnod. Mae'r AoALlSaTh yn awgrymu bod awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried tri neu bedwar safleoedd trawsteithiol ar draws y rhanbarth lle i hyd at saith o garafannau yr un. Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r AoALlSaTh lle'r hoffent i safle dros dro gael ei leoli. Nid yw'r un o'r aneddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu nodi fel lleoliad a ffefrir. Dros y misoedd nesaf bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru i nodi safleoedd priodol ar gyfer tramwyo / mannau aros dros dro ar sail ranbarthol. Bydd natur, yn ogystal â lleoliad y ddarpariaeth, yn cael eu llywio gan ddata ar batrymau gwersylla di awdurdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn y cyfamser, bydd polisi seiliedig ar feini prawf CDLl Eryri yn parhau i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod i farnu cynigion ar gyfer ymateb i alw yn y dyfodol neu alw annisgwyl.	

MF38

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro ffigwr angen tai fforddiadwy a nodwyd trwy'r LHMA ac arolygon anghenion tai priodol eraill			
Dadansoddiad: Ers y broses o Archwilio Cynllun Datblygu Lleol Eryri, mae Grŵp Ymchwil Gogledd Cymru wedi adolygu Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru (AMTLIGOC) wedi adolygu'r cyfrifyddiad o angen lleol am dai ar lefel Awdurdod Unedol. Gan ddefnyddio rhaniad pro rata elfennol ar gyfer y rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd o fewn y Parc Cenedlaethol mae'n rhoi angen blynyddol o 65. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol is na ffigurau'r AMTLIGOC blaenorol a oedd ar gael yn ystod yr Archwiliad i GDLl Eryri ac mae'n ymddangos bod yr Awdurdod yn iawn i fynegi nifer o bryderon ynghylch dibynadwyedd ffigurau data y AMDLl blaenorol yn ystod sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad. Mae ffigurau diweddaraf AMTLIGOC yn nes at lefel yr angen a adnabuwyd gan yr Awdurdod trwy gyfrwng yr Asesiad Cymunedol o'r Angen am Dai. Mae'r Awdurdod yn hyderus bod yr amcangyfrif o'r angen am dai fforddiadwy yn y Cynllun yn briodol ac yn annhebygol o newid yn sylweddol. Ers mabwysiadu y Cynllun, mae Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (RHE) wedi cynnal arolwg o anghenion tai lleol yng nghyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth ac mae HTG Conwy wedi cynnal arolwg yng Nghyngor Cymuned Bro Machno. Mae ymrwymiadau presennol yn Llanfachreth a Rhydymain ac mae tir wedi ei glustnodi a rhoddwyd caniatâd am dai fforddiadwy ym Mhenmachno i gwrdd â'r angen a adnabuwyd.			+

MF39

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro cynnydd y gofrestr Perchnogaeth Tai Cost Isel Gwynedd. Dylai'r Gofrestr gael ei diweddaru'n rheolaidd a gwybodaeth gael ei rhannu i ardal y Parc Cenedlaethol ac i ardaloedd Cynghorau Cymuned i gynorthwyo'r broses fonitro.	Cofrestr i gael ei diweddaru'n rheolaidd gan Wasanaeth Tai Cyngor Gwynedd a'r wybodaeth i gael ei rhannu ag APCE yn rheolaidd.	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Lansiwyd cofrestr perchnogaeth tai cost isel Tai Teg ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yn swyddogol ym mis Mawrth 2012. Nifer yr aelwydydd ar y gofrestr Tai Teg o fewn y Parc Cenedlaethol ym Medi 2013 oedd 78. Nifer yr aelwydydd / teuluoedd ar y gofrestr Camau Cyntaf (cofrestr perchentyaeth cost isel ar gyfer ardal Conwy) o fewn y Parc Cenedlaethol oedd 21 ym mis Medi 2013			

MF40

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Cynhyrchu nodyn ymarferol ar dai fforddiadwy yn seiliedig ar ddiwygio'r CCA presennol ar Dai Fforddiadwy. Cynnwys gwybodaeth am dai fforddiadwy graddfa fach a hunan-adeiladu hyfyw	Erbyn 2012	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Cafodd y CCA diwygiedig ar Dai Fforddiadwy ei fabwysiadu ym mis Medi 2011. Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu nodyn arweiniol ymarferol i ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflwyno cais cynllunio am annedd fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn parhau i drafod materion hyfywedd ar sail achos wrth achos gan gyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.			

MF41

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer dileu amod meddiannaeth amaethyddol neu lety gwyliau	Amnewid am amod sy'n cyfyngu ar feddiannaeth i dai fforddiadwy	Llai na 30% o'r holl ganiatâd i ddileu amodau amaethyddol neu lety gwyliau	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Ni phenderfynwyd ar unrhyw geisiadau ar gyfer symud amod amaethyddol neu lety gwyliau ers ei fabwysiadu. **2012-13** Dau gais wedi cael eu cymeradwyo i symud cyfyngiad daliadaeth llety gwyliau a gosod cytundeb Adran 106 tai fforddiadwy yn ei le yn unol â'r polisi.			

MF42

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y cyfleusterau cymunedol newydd neu well mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol, Aneddiadau Eilaidd ac Aneddiadau Llai	Cynnydd yn y nifer o gyfleusterau cymunedol newydd neu well	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Dim ceisiadau wedi eu penderfynu. **2012-13** Cafodd pedwar cais ganiatad ar gyfer cyfleuster cymunedol newydd neu well, roedd un ar gyfer uwchraddio maes chwarae yn y Bala, a'r llall oedd stiwdio dysgu golff yn Harlech a'r ddau arall yn cynnwys adnewyddu ac ymestyn ysgol gynradd bresennol yn Llanuwchllyn ac adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llanegryn			

MF43

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd drwy newid defnydd	Dim colli cyfleusterau hyfyw	Methiant i gyflenwi	+/-
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Un newid defnydd o fanwerthu i ddefnydd preswyl. **2012-13** Dau gais am newid defnydd o dŷ tafarn i dai preswyl wedi cael eu cymeradwyo, un yn Capeleulo ac un yn Nolgarrog. Fe wnaeth yr Awdurdod ofyn am y wybodaeth ganlynol cyn penderfynu ar y ceisiadau: • Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol. • barn y Cyngor Cymuned. • tystiolaeth eu bod wedi cael ei hysbysebu ar y farchnad fel defnydd busnes yn unig. • Tystiolaeth o hyfywedd ariannol y busnes. Roedd gan y ddau aneddiad dai bwyta / tafarndai yn darparu cyfleusterau cymunedol eraill			

MF44

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o Ddatganiadau Cymunedol ac Ieithyddol a gyflwynwyd Nifer o Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol a gyflwynwyd	Dim niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned	1 cynllun niweidiol am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad niweidiol mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad:			

Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012 Dim ceisiadau wedi'u cyflwynwo. **2012-13** Cyflwynwyd pump o Ddatganiadau Cymunedol ac Ieithyddol yn 2012-13. Dau gais yn ymwneud â cholli tafarn, roedd un am godi ysgol gynradd newydd, a dau gais yn ymwneud â chynigion twristiaeth. Fe ddaeth yr Awdurdod i'r casgliad na fyddai unrhyw un o'r datblygiadau yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.	

MF45

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro effeithiolrwydd y datganiad Cymunedol ac ieithyddol a'r Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol	Nifer a gynhyrchwyd yn unol â pholisi. Asesu effeithiolrwydd.		+
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Dim ceisiadau wedi'u cyflwyno. **2012-13** Mae'r pum Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol a gyflwynwyd yn galluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ceisiadau a allai fod wedi cael effaith ar yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau			

MF46

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Annog arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog	Cynnydd mewn arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog		+
Dadansoddiad: Pan fo hynny'n briodol mae ymgeiswyr wedi cael eu hannog i gynhyrchu arwyddion dwyieithog ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn mwy nag un achos. Mae'r daflen 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich datblygiad neu fusnes newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru' hefyd ar gael			

MF47

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Annog y defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd	Cynnydd mewn enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd		+
Dadansoddiad: Mae'r Awdurdod yn parhau i anfon llyfryn 'Bywyd mewn Cymuned Cymraeg' i ymgeiswyr ac mae'r daflen 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich datblygiad neu fusnes newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru ' hefyd ar gael			

MF48

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd ar ddatblygiad mwy	Pob datblygiad mawr	Methiant i sicrhau rhwymedigaethau lle bo angen ar 2 neu fwy o safleoedd mewn 3 blynedd	
Dadansoddiad: **Gorffennaf 2011 (dyddiad mabwysiadu) - Ebrill 2012** Dim ceisiadau wedi'u cyflwyno. **2012-13** Ni chyflwynwyd cais am ddatblygiad ar raddfa fawr yn ymofyn am rwymedigaeth cynllunio yn 2012-13			

MF49

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio	Erbyn 2012	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: CCA wedi cael ei fabwysiadu**.**			

Astudiaethau achos

Tir ym Maes y Waen, Penmachno

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Swyddog Galluogi Tai Gwledig Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cartrefi Conwy a'r gymuned leol i hwyluso'r broses o ddatblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol mewn ardal sydd mewn angen. Yn ystod y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri, roedd yr Awdurdod wedi adnabod bod y tir ym Maes y Waen, Penmachno yn safle posibl ar gyfer tai, ac roedd Cyngor Cymuned Bro Machno wedi cefnogi hynny'n ddiweddarach. Neilltuwyd y tir ym Maes y Waen, Penmachno fel safle tai fforddiadwy 100% yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri. Pennwyd yr angen lleol am dai drwy'r arolwg o'r anghenion o ran tai a gynhaliwyd gan Swyddog Galluogi Tai Gwledig Conwy. Ym mis Mawrth 2013, rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi 12 uned ar dir a drosglwyddwyd o berchenogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gymdeithas dai Cartrefi Conwy. Mae Cartrefi Conwy yn gobeithio datblygu'r safle'n raddol, a'r bwriad yw dechrau adeiladu 6 uned yn ystod yr haf 2013.

Tir ym Mhlas yn Dre, Y Bala

Mae'r hap-safle ger tŷ bwyta Plas yn Dre, y Bala wedi bod yn wag ers rhai blynyddoedd erbyn hyn. Ym mis Mawrth 2013, rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi rhes o 6 o dai yn wynebu Heol Arenig gyda man amwynder a lle parcio yn y cefn, ynghyd â chodi datblygiad cymysg sy'n cynnwys defnydd manwerthu ar y llawr gwaelod â 6 fflat uwchben. Mae dyluniad y cynnig hwn ynghyd â'r defnydd o ddeunyddiau wedi bod yn destun trafodaethau rhwng yr ymgeiswyr a swyddogion yr Awdurdod hwn dros y misoedd diwethaf, ac ystyrir bod y cynnig presennol yn gyfle i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol sydd angen tai mewn lleoliad cynaliadwy yng nghanol y dref, ac yn gyfle i adfywio hyfywedd manwerthu'r Stryd Fawr. Gan fod y safle hwn yn ardal gadwraeth y Bala ac yn amlwg iawn yng ngolygfa'r stryd, roedd yn hanfodol sicrhau dyluniad o safon sy'n defnyddio deunyddiau priodol. Mae'r rhes o 6 o dai sy'n wynebu Heol Arenig yn cynnwys 5 o gartrefi pedair ystafell wely ac 1 cartref teulu tair ystafell wely, dros 3 llawr, ac mae'r raddfa a'r dyluniad yn adlewyrchu ac yn cydweddu ag eiddo preswyl eraill ar hyd Heol Arenig. Un ystafell wely sydd yn y fflatiau uwchben yr uned manwerthu. Bydd cyswllt gwydr rhwng Plas yn Dre a'r uned manwerthu / tŷ bwyta ar y llawr gwaelod. O fewn ffin datblygu tai'r Bala, mae Polisi G: Tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn datgan y dylai 50% o'r tai mewn cynllun o'r fath fod yn rhai fforddiadwy, a dylid cyfyngu ar eu meddiannaeth i'r rhai sydd angen tai yn y gymuned leol. Mae'r ymgeisydd wedi ymrwymo i gytundeb adran 106 i sicrhau fforddiadwyedd y 6 fflat uwchben yr uned manwerthu ac i gyfyngu ar eu meddiannaeth i'r rhai sydd angen tai ac sy'n bodloni'r meini prawf rhywun lleol.

8 CEFNOGI ECONOMI WLEDIG GYNALIADWY

Mae’r rhan hon yn cyflawni ymateb i’r amcanion a ganlyn:

Annog twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cynnal cymunedau sy'n ffynnu.

Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n uchafu buddiannau economaidd lleol, lleihau effaith amgylcheddol ac sy’n cydymdeimlo â 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol

Tir Cyflogaeth

8.1 Mae twf araf parhaus yr economi yn cael ei adlewyrchu yn y sector fasnachol ac nid yw ceisiadau ar gyfer gofod llawr newydd at ddibenion cyflogaeth yn cael eu cyflwyno. O ystyried y slac yn y system a'r gôr-gyflenwad o unedau diwydiannol a busnes a lleiniau heb eu datblygu ar barciau busnes dynodedig sydd y tu allan, ond yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol, mae'r sefyllfa yn debygol o aros yr un fath yn y dyfodol agos.

8.2 Ym mis Tachwedd 2012 diwygiodd Llywodraeth Cymru Bennod 7 o Bolisi Cynllunio Cymru (gol 5) Cydnabu’r Llywodraeth fod y polisi ar ddatblygu economaidd angen cael ei ategu gyda nodyn cyngor technegol er mwyn darparu canllawiau mwy manwl i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau cynllunio. Bydd Drafft Ymgynghorol o Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2013.

Parth Menter Eryri

8.3 Cafodd Parth Menter Eryri (yn seiliedig i ddechrau o amgylch yr hen orsaf bŵer niwclear yn Nhrawsfynydd) ei ymestyn i gynnwys hen faes awyr RAE yn Llanbedr. Dymuniad Llywodraeth Cymru yw bod Llanbedr yn chwarae rôl yn y gwaith ymchwil a datblygu Cerbydau Awyr Di-griw (UAVs). Mae’r safle yn elwa o gael Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer datblygiad o'r fath. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi cael ei roi ar gyfer cynnal a chadw awyrennau masnachol ynghyd â datgomisiynu ar y safle.

Arallgyfeirio amaethyddol

8.4 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cafodd Canllawiau Cynllunio Atodol eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ar Arallgyfeirio Amaethyddol ym mis Hydref 2012. Cynhyrchwyd y CCA mewn cydweithrediad â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Diben y ddogfen yw darparu canllawiau ymarferol ar faterion a allai godi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio arallgyfeirio.

Twristiaeth a Hamdden

8.5 Mae’r polisïau yn y Cynllun Datblygu yn cefnogi twristiaeth a hamddena awyr agored sy'n sicrhau buddion economaidd lleol. Mae nifer o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi arwain at welliannau

i gyfleusterau twristiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn wedi bod ar gyfer gwella safleoedd carafanau ar draws y Parc Cenedlaethol.

8.6 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu CCA ar gyfer lletai i ymwelwyr yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd y canllawiau eu mabwysiadu ym mis Hydref 2012 a phwrpas y CCA yw darparu gwybodaeth fwy manwl ar sut y bydd y polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cymhwyso yn ymarferol. Mae'r CCA yn cynnwys canllawiau pellach ar nifer o'r polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ymwneud â thwristiaeth a safleoedd gwersylla a charafanau. Hefyd mae'n amlinellu o dan ba bolisïau y bydd gwahanol fathau newydd o letai i ymwelwyr yn cael eu hystyried. Yn ogystal, darperir canllawiau pellach ar ba fath o welliannau amgylcheddol sy'n cael eu hystyried yn briodol yn unol â pholisïau'r CDLl.

8.7 Mae Polisi Datblygu 22 (Safleoedd Cabanau a Charafanau Statig) a Pholisi Datblygu 23 (Carafanau Teithiol a Gwersylla) wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau oherwydd bod y polisi yn datgan yn glir na fydd unrhyw safleoedd newydd yn cael eu caniatáu o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi helpu i atal ceisiadau ar hap. Yn ogystal â hyn, cafwyd ceisiadau a thrafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau ar gynigion i ymestyn safleoedd presennol gyda gwelliannau amgylcheddol cysylltiedig. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio hefyd i wrthod ceisiadau i ymestyn safleoedd lle nad oes gwelliannau amgylcheddol arfaethedig neu lle nad yw'r safle eisoes wedi ei sgrinio'n dda. Bu cynnydd yn yr ymholiadau am fathau eraill o lety hunanarlwyo statig fel podiau, pebyll crwyn a chytiau bugeiliaid . Ar y cyfan, y mae'r rhan fwyaf o fathau newydd o letai yn cael eu trin fel unedau sefydlog gan nad ydynt yn cael eu symud oddi ar y safle ac felly yn cael eu penderfynu o dan Bolisi Datblygu 22. Os gall yr unedau gael eu symud / a maent yn cael eu symud oddi ar y safle yn ystod y cyfnod cau safleoedd yna maent fel arfer yn penderfynu o dan Bolisi Datblygu 23.

8.8 Er mwyn sicrhau bod yr holl drosiadau i letai hunan arlwyo tymor byr yn parhau i fod fel y cyfryw ac nid yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi y mae'r Awdurdod wedi ailddrafftio amod cynllunio sy'n cyd-fynd â chaniatâd. Mae'r amod yn datgan na ddylai unrhyw berson fyw yn yr uned wyliau am gyfnod parhaus o fwy na 28 diwrnod ac ni ddylai gael ei ail-feddiannu gan yr un person yn ystod y cyfnod dilynol o 28 diwrnod. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gadw cofrestr ddiweddar o enwau'r holl ddeiliaid. Mae'r Awdurdod yn ymofyn bod yr wybodaeth ar gael pe gofynnir amdano.

Manwerthu

8.9 Nid oes fawr ddim datblygiadau manwerthu newydd wedi digwydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn ystod cyfnod y AMB. Cafodd uned adwerthu 205m² ei gymeradwyo fel rhan o ddatblygiad Plas yn Dre, Y Bala sy'n cynnwys dolen wydr i'r bwyty a'r bar presennol. Bu rhai gwelliannau bach i unedau manwerthu presennol fel gosod arwyddion a ffenestri. Yn ychwanegol at hyn rhoddwyd cymeradwyaeth i gais ar gyfer siop a chaffi newydd yn lle'r hen un ym Metws y Coed. Mae'r amgylchiadau economaidd anodd parhaus yn profi'n anodd i bob busnes.

MF50

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Gofod llawr cyflogaeth newydd wedi'i adeiladu yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol	Cynnydd mewn arwynebedd llawr cyflogaeth newydd	Methiant i gyflenwi	+/-
Dadansoddiad:			

Oherwydd cyflwr gwan yr economi yn ystod 2012-13 ni adeiladwyd gofod llawr newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd nifer o geisiadau ar gyfer Newid Defnydd o ddefnydd dosbarth B1 (B), B1 (C) a B8 i ddefnyddio dosbarth B1 (B), B1 (C) yn Nolgellau, nid oedd hyn yn arwain at gynnydd yn y gofod llawr cyflogaeth, yn hytrach arweiniodd hyn at newidiadau i ddefnydd storfa/warws yn rhai adeiladau segur. Nid yw'r newidiadau hyn yn anwrthdroadwy.	

MF51

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Cyfanswm arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi'i adeiladu yn y Parc Cenedlaethol (gan gynnwys addasiadau)	Cynnydd mewn arwynebedd llawr cyflogaeth newydd	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Er nad oes unrhyw arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi cael ei adeiladu, mae nifer fach iawn o addasiadau ar gyfer defnydd busnes / cyflogaeth wedi digwydd. Y datblygiad mwyaf arwyddocaol oedd bod caniatâd wedi cae ei roi ar gyfer ail-ddefnyddio hangers a'r adeilad cysylltiedig ym Maes Awyr Llanbedr (bellach yn rhan o Barth Menter Eryri) ar gyfer cynnal a chadw a datgomisiynu awyrennau			

MF52

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o swyddi ychwanegol a grëwyd	Cynnydd yn nifer y swyddi ychwanegol a grëwyd		+
Dadansoddiad: Unrhyw wybodaeth am nifer y swyddi newydd a grëir. Rhagwelir y bydd 34 - bydd 50 o swyddi newydd yn cael eu creu ym Maes Awyr Llanbedr erbyn 2015			

MF53

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Faint o dir cyflogaeth (ha) ac arwynebedd llawr (metr sgwâr) wedi'u hailddatblygu i ddefnyddiau eraill	Dim colli tir cyflogaeth / arwynebedd llawr oni bai ei fod yn unol â'r Polisi.	Y cyflenwad o dir / eiddo cyflogaeth a gollwyd ddim yn unol â Pholisi. 1 cynllun yn cael ei golli am 3 blynedd yn olynol neu 3 chynllun wedi'u colli mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Dim arwynebedd llawr wedi'i golli i ddatblygiadau eraill			

MF54

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Tir cyflogaeth a chyfradd adeiladau gwag			
Dadansoddiad Dim dadansoddiad llawn wedi'i wneud ers paratoad CDLIE			

MF55

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro tir cyflogaeth ac adeiladau diwydiannol sydd ar gael yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol.			○
Dadansoddiad : Dim dadansoddiad llawn wedi'i wneud ers paratoad CDLIE			

MF56

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro datgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd a defnyddiau amgen posibl i'w hystyried yn yr adolygiad			+
Dadansoddiad: Mae'r safle wedi ei ddynodi fel Ardal Fenter a bydd angen i unrhyw ddatblygiad newydd gael eu hasesu yn erbyn polisïau'r Cynllun presennol. Bydd angen i unrhyw ddyraniad penodol ar y safle ar gyfer cyflogaeth gael ei ystyried mewn adolygiad o'r cynllun.			

MF57

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer o geisiadau ar gyfer unedau byw-gwaith priodol Nifer y ceisiadau ar gyfer gweithio gartref	Cynnydd yn nifer y cynlluniau priodol cymeradwy		+
Dadansoddiad: Anheddau pedwar gweithiwr amaethyddol wedi cael eu caniatáu yn ystod cyfnod yr AMB			

MF58

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd neu well	Pob cais datblygu	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Cafwyd 19 o geisiadau ar gyfer uwchraddio a gwella cyfleusterau twristiaeth bach sydd eisoes yn bodoli neu waith cysylltiedig sydd wedi darparu cyfleusterau twristiaeth newydd neu well o fewn y Parc Cenedlaethol. Maent wedi cynnwys adeiladu cyfleuster newydd ar gyfer pysgota a gwasanaethau i ymwelwyr, ffurfio neu waith adnewyddu llwybrau troed a stiwdio addysgu newydd ar Gwrs Golff Brenhinol Dewi Sant .			

MF59

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau sy'n gwella ansawdd safleoedd presennol Cabannau gwyliau a Charafanau Statig a lleihau eu heffaith ar y dirwedd	Pob cais datblygu	1 datblygiad yn methu gwella ansawdd / lleihau effaith ar y dirwedd am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Cafwyd tri o gynigion a fydd yn gwella ansawdd y ddau safle carafanau sefydlog a chabanau o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae dau o'r cynigion ar gyfer cawod / cyfleusterau toiled a fydd yn gwella profiad yr ymwelydd. Y cynnig arall oedd dymchwel hen adeiladau mewn cyflwr gwael a gosod cabanau newydd yn eu lle. Roedd y cais yn darparu gwelliant amgylcheddol ar safle presennol.			

MF60

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau sy'n gwella ansawdd y Safleoedd Gwersylla a Charafanau Teithiol presennol a lleihau eu heffaith ar y dirwedd	Pob cais datblygu	1 datblygiad yn methu gwella ansawdd / lleihau effaith ar y dirwedd am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Cafwyd 9 o geisiadau am amryw welliannau i safleoedd teithiol a gwersylla yn ystod y cyfnod yr AMB. 8 o'r rhain wedi bod yn gais bach ar gyfer 'hwc yps' trydanol, estyniadau i adeiladau presennol a darparu lloriau caled. Roedd y cais a oedd yn weddill ar gyfer creu estyniad i safle presennol i ail-leoli 6 leiniau presennol a chreu pwll a phlannu helaeth sydd yn unol â diben Polisi Datblygu 22			

MF61

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Cabannau gwyliau, Carafanau Statig a Theithiol, a Gwersylla	Erbyn 2013		+
Dadansoddiad: Penderfynwyd y byddai'n fwy priodol i ddrafftio CCA llety ymwelwyr a oedd yn cynnwys pob math o letai i ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad pellach ar nodau ac amcanion nifer o bolisïau yn y CDLl, gan gynnwys y polisïau twristiaeth a'r polisïau sydd a wnelo cabanau, carafanau sefydlog, teithiol a phebyll. Mae hefyd yn cynnwys arweiniad ar fathau eraill o letai gwersylla megis podiau, pebyll crwyn a phebyll coediog. Mae'r CCA wedi cael ei fabwysiadu ym mis Hydref 2012 yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus			

MF62

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Arwynebedd llawr manwerthu newydd o fewn y prif leoedd adeiledig Canolfannau Gwasanaeth Lleol, Aneddiadau Gwasanaeth ac Aneddiadau Eilaidd	Pob cais datblygu	1 Datblygiad newydd y tu allan yr ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan yr ardaloedd hyn mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Cafwyd dau gais a gymeradwywyd ar gyfer gofod manwerthu newydd o fewn aneddiadau gwasanaeth o fewn y Parc Cenedlaethol. Un o fewn Betws y Coed ac un o fewn Aberdyfi. Ni fu unrhyw ddatblygiadau manwerthu newydd y tu allan i'r prif ardaloedd a nodwyd yn y dangosydd hwn.			

MF63

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau manwerthu newydd y bwriedir i wasanaethu ardal ddalgylch anheddiad ehangach a gyfyngir i'r Bala a Dolgellau	Pob cais datblygu	1 Datblygiad newydd y tu allan i’r ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan i’r ardaloedd hyn mewn 1 flwyddyn	○
Dadansoddiad: Dim datblygiad newydd yn ystod y cyfnod monitro.			

MF64

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau manwerthu newydd sydd wedi'u lleoli o fewn y brif ardal manwerthu neu o fewn 200m o ganol y dref	Pob cais datblygu	1 Datblygiad newydd y tu allan yr ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan yr ardaloedd hyn mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Fel rhan o ddatblygiad tai 'Plas yn Dre' yn Y Bala ceir uned manwerthu ar y llawr gwaelod sydd â maint cyffredinol 205msg. Bydd rhan o'r uned yn cael ei ddefnyddio fel estyniad i'r bar ar hyn o bryd, trwy gyswllt gwydr.			

MF65

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Unedau gwag mewn ardaloedd manwerthu	Lleihau neu gynnal cyfradd unedau gwag		
Dadansoddiad Yn yr arolwg manwerthu a ddefnyddiwyd yn ystod archwiliad y CDLl, roedd 10 o unedau gwag yn y ardaloedd manwerthu cydnabyddedig o fewn y Parc Cenedlaethol. Yn ystod gaeaf 2012 cafodd arolwg mwy diweddar ei gynnal, ond gan fod arolwg 2008 wedi cael ei gynnal yn ystod yr Haf nid oedd yn bosib ei ddefnyddio ar gyfer y dadnasoddiad. Bydd arolwg pellach yn cael ei gynnal yn ystod Haf 2014.			

MF66

Dangosyddion	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Canran y defnyddiau manwerthu heb fod yn A1 ym mhrif ardaloedd manwerthu Aberdyfi, Bala, Betws-Y-Coed, Dolgellau a Harlech	Cynnal cyfradd o fewn 10 - 25% o'r ganran bresennol (yn seiliedig ar unedau manwerthu).	Dros 25% o ddefnyddiau manwerthu nad ydynt mewn prif ardaloedd manwerthu am 3 blynedd yn olynol	
Dadansoddiad Yn yr arolwg manwerthu a ddefnyddiwyd yn ystod archwiliad y CDLl, roedd cyfartaledd o 33% o'r unedau gyda defnydd manwerthu heb fod yn A1. Yn ystod gaeaf 2012 cafodd arolwg mwy diweddar ei gynnal, ond gan fod arolwg 2008 wedi cael ei gynnal yn ystod yr Haf nid oedd yn bosib ei ddefnyddio ar gyfer y dadansoddiad. Bydd arolwg pellach yn cael ei gynnal yn ystod Haf 2014.			

Astudiaethau achos

Adeiladu estyniad ar y ganolfan ymwelwyr bresennol, Coed y Brenin

Yn sgil llwyddiant Coed y Brenin fel cartref i rwydwaith o lwybrau beicio mynydd rhagorol, cyflwynodd y Comisiwn Coedwigaeth gais cynllunio i ymestyn a gwella ei gyfleusterau presennol er mwyn apelio i ystod ehangach o ddefnyddwyr, a chynyddu nifer yr ymwelwyr i 180,000 yn sgil hynny. Roedd yr estyniad yn cynnwys storfa / siop beics newydd, lobi addysg a meysydd amlddefnydd. Roedd yn cynnwys estyniad hanner-crwn i'w orffen â dur hindreulio Corten, ac adeilad deulawr mawr wedi'i orffen â choed Cymreig lleol a tho brown wedi'i gysylltu â'r adeilad presennol â phont. Bydd yr adeilad wedi'i lunio'n gyfan gwbl o bren cartref a bydd yn gosod safonau newydd o ran defnyddio ynni'n effeithlon; ac mae'n defnyddio nifer o egwyddorion Passivhaus. Bydd y to'n cael ei hadu â chymysgedd priodol o hadau blodau gwyllt er mwyn sicrhau bod y to yn ymdoddi i'r goedwig. Mae Polisi Datblygu 21 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn cefnogi cynigion o'r fath ar yr amod bod "unrhyw adeiladau neu strwythurau o ddyluniad, graddfa ac yn defnyddio deunyddiau sy'n gydnaws â'r ardal, neu'n ei gwella". Y prif gyfyngiadau ar y safle oedd y topograffi a'r lefelau a'r anawsterau a gafwyd i ymestyn yr adeilad crwn. Cyflwynwyd y cais gerbron Comisiwn Dylunio Cymru a daethpwyd i'r casgliad y byddai ymgymryd â rhagor o waith i ailraddio'r dirwedd a phlannu mwy yn lleddfu effaith weledol yr adeilad newydd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio a'r nod yw cwblhau'r adeilad erbyn yr haf 2013.

Estyniad ar Safle Carafanau Statig, Llanuwchllyn

Ym mis Gorffennaf 2012, rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd am estyniad ar safle carafanau statig a oedd eisoes wedi'i guddio'n dda, ac yn unol â Pholisi Datblygu 22 nid oedd cynnydd yn nifer yr unedau ar y safle. Fodd bynnag, roedd y cynnig yn golygu symud 6 o'r unedau i safle'r estyniad er mwyn lleihau dwysedd ar y safle. Ar ben hynny, roedd y cynnig yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol amlwg i'r safle a'r ardal. Aethpwyd ati i blannu rhagor yn fewnol ac o amgylch ffin y safle, a chyflwyno pwll bywyd gwyllt a darn o dir gwlyb fel rhan o'r cynnig. Ystyriwyd y byddai'r cynnig yn lleihau effaith y safle ar y dirwedd gyfagos drwy leihau'r dwysedd, gwella'r sgriniau a'r fioamrywiaeth.

Ailddatblygu Canolfan Arddio, Betws y Coed

Ym mis Awst 2012, rhoddodd yr Awdurdod sêl ei fendith i ddymchwel siop a thŷ gwydr a chodi adeilad newydd ar gyfer siop a chaffi yn y feithrinfa bresennol. Mae'r safle yn agos iawn at ganol Betws y Coed ac mae yn yr Ardal Gadwraeth, felly roedd yn rhaid cyflwyno cais hefyd i ddymchwel mewn ardal gadwraeth. Roedd y cynnig yn cynnwys symud tŷ gwydr ffrâm alwminiwm a rhoi adeilad yn ei le a fyddai'n cynnwys y caffi a'r siop newydd ynghyd â thoiledau. Roedd dyluniad yr adeilad â gorffeniad rendr wedi'i baentio a drysau a ffenestri ffrâm bren yn gydnaws â'r ardal a'r Ardal Gadwraeth.

9 HYRWYDDO HYGYRCHEDD A CHYNHWYSEDD

Mae’r rhan hon yn cyflawni ymateb i’r amcanion a ganlyn:

Annog datblygiad newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio gyda mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a dulliau cludiant cynaliadwy.

Cefnogi mentrau sy'n anelu at annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o gludiant.

Hygyrchedd

9.1 Rhoddwyd sawl caniatâd i uwchraddio llwybrau troed neu adeiladu rhai newydd yn y Parc Cenedlaethol yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Ar ben hynny, bu ceisiadau hefyd am ddau lwybr aml-ddefnydd sy’n cefnogi amcanion y CDLl o ran hwyluso mwynhad yr holl ymwelwyr o’r Parc Cenedlaethol.

9.2 Mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Hamdden ym mis Rhagfyr 2012. Nod y strategaeth yw annog pobl i ddefnyddio hamdden gynaliadwy yn Eryri. Bydd yr Awdurdod yn monitro unrhyw oblygiadau defnydd tir sy’n gysylltiedig â’r strategaeth hon. Mae’r Awdurdod wedi rhoi caniatâd i ddymchwel pont ffordd a rheilffordd bresennol Pont Briwet, a chodi pont ffordd a rheilffordd gyfunedig newydd yn ei lle. Bydd hyn yn gwella’r rhwydwaith ffordd yn sylweddol.

Telathrebu

9.3 O'i gymharu â’r blynyddoedd blaenorol, mae nifer y ceisiadau am ddatblygiadau telathrebu yn isel. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o weithredwyr ffonau symudol wedi sicrhau signal digonol yn yr ardal. Bydd nifer o ganiatadau â therfynau amser a roddwyd bron i 10 mlynedd yn ôl yn dod i ben yn fuan, a rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu hadnewyddu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

9.4 Efallai y bydd ceisiadau pellach yn cael eu cyflwyno wrth i 4G gael ei gyflwyno’n raddol.

MF67

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau â mynediad at lwybrau troed, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus	Cynnydd o ran nifer	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Mae'r mwyafrif helaeth o geisiadau a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn wedi cael mynediad at lwybr troed, llwybr beicio neu gysylltiadau â chludiant cyhoeddus. Ystyrir bod hyn yn cyflenwi gofynion y dangosydd hwn yn llwyddiannus.			

MF68

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Nifer y datblygiadau â mynediad at gludiant cyhoeddus	Cynnydd o ran nifer	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Fel uchod, mae'r mwyafrif llethol o ddatblygiadau a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn wedi cael mynediad at gludiant cyhoeddus. Ystyrir bod hyn yn cyflenwi gofynion y dangosydd hwn yn llwyddiannus.			

MF69

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Dim niwed sylweddol yn sgil newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd	Holl gynigion datblygu	Niwed sylweddol yn deillio o 1 datblygiad am 3 blynedd yn olynol neu niwed sylweddol yn deillio o 3 datblygiad mewn 1 flwyddyn	+
Dadansoddiad: Ni welwyd unrhyw niwed sylweddol yn sgil newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd. Bydd dymchwel Pont Briwet ac adeiladu pont ffordd a rheilffordd newydd yn gwella'r rhwydwaith ffordd.			

MF70

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Meysydd parcio newydd i ymwelwyr yn y Canolfannau Gwasanaethau Lleol	Holl gynigion datblygu oni bai eu bod yn rhan o gynllun rheoli traffig neu'n rhan annatod o atyniad newydd neu estynedig i ymwelwyr	1 datblygiad y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Lleol oni bai eu bod yn rhan o gynllun rheoli traffig bwriadedig neu'n rhan annatod o atyniad newydd neu estynedig i ymwelwyr am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad y tu allan i'r ardaloedd hyn mewn 1 flwyddyn	○
Dadansoddiad: Ni chaniatawyd unrhyw feysydd parcio newydd i ymwelwyr yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol.			

MF71

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Meysydd parcio newydd i ymwelwyr y tu allan i ganolfannau gwasanaethau lleol	Darparu maes parcio newydd i ymwelwyr fel rhan o gynllun rheoli traffig bwriadedig neu ran annatod o atyniad newydd neu estynedig i ymwelwyr sy'n rhoi blaenoriaeth i gludiant cynaliadwy.	Methiant i gyflenwi	○
Dadansoddiad: Ni chafwyd ceisiadau am feysydd parcio y tu allan i'r canolfannau gwasanaethau lleol yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Bu 4 cais am estyniadau bach ar y meysydd parcio presennol.			

MF72

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro unrhyw oblygiadau defnydd tir yn sgil Strategaeth Hamdden yr Awdurdod			+
Dadansoddiad: Mabwysiadodd yr Awdurdod strategaeth hamdden ym mis Rhagfyr 2012. Bydd unrhyw oblygiadau defnydd tir yn sgil y strategaeth yn cael eu monitro'n flynyddol.			

MF73

Dangosyddion Craidd a Lleol	Targedau Polisi	Lefel Sbarduno	
Monitro nifer y datblygiadau telathrebu nad ydynt yn niweidio ymddangosiad gweledol a chymeriad yr ardal	Holl gynigion datblygu	Methiant i gyflenwi	+
Dadansoddiad: Bu llond llaw o geisiadau i amnewid ac uwchraddio cyfarpar ar y safleoedd presennol, ond nid yw unrhyw un ohonynt wedi arwain at niweidio ymddangosiad gweledol a chymeriad yr ardaloedd y maent ynddynt.			

<u>Astudiaethau achos</u>

Llwybr Amlddefnydd, Rhyd Ddu – Beddgelert

Cynnig oedd hwn am lwybr newydd sy'n darparu ffordd i gerddwyr, beicwyr a cheffylau oddi ar y brif ffordd rhwng Beddgelert a Rhyd Ddu. Ar gyfer llawer o'r ffordd, roedd y llwybr yn defnyddio'r llwybrau troed a cheffylau presennol, a'r bwriad oedd eu huwchraddio lle bo angen gan ddefnyddio hawliau datblygu a ganiateir. Fodd bynnag, nid oedd y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn gyflawn rhwng y ddau anheddiad, felly cyflwynwyd cais i'w gwblhau drwy greu llwybrau a phontydd troed amlddefnydd newydd, ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Medi 2012. Roedd y cynnig am lwybr 2 fetr o led a fyddai'n golygu bod digon o le ar gyfer y defnydd cymysg, a byddai'r arwyneb arfaethedig yn addas i'r holl ddefnyddwyr. Mae'r cynnig yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'n hybu mwynhad i bawb o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Dymchwel Pont Briwet a'r tollty ac adeiladu croesfan ffordd a rheilffordd gyfunedig newydd, gan gynnwys cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr

Ym mis Gorffennaf 2012, rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd i ddymchwel Pont Briwet a'r tollty, ac adeiladu croesfan ffordd a rheilffordd gyfunedig newydd, sy'n cynnwys cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, a gwelliannau ffordd cysylltiedig. Mae Pont Briwet yn strwythur rhestredig Gradd II ac mae'n cysylltu Llandecwyn â Phenrhyndeudraeth. Nid oedd yn cynnig llwybr troed i gerddwyr, a diben y cynnig hwn oedd gwella'r ffordd i bob cerbyd, yn ogystal â beicwyr a cherddwyr. Ar ben hynny, bwriedir adeiladu pont reilffordd newydd. Dyluniwyd y cynnig yn y fath fodd ag i sicrhau bod yr effaith ar y dirwedd yn debyg i effaith y bont bresennol. Er gwaethaf y ffaith ein bod yn colli strwythur eiconig cydnabyddedig, ystyriwyd y byddai'r cynnig yn arwain at fanteision sylweddol i'r gymuned a fyddai'n drech na cholli strwythur rhestredig. Ymgynghorodd yr ymgeiswyr â'r Comisiwn Dylunio ynglŷn â'r cynnig, ac aethpwyd ati i wella'r dyluniad a chafodd y gwelliannau diweddarach eu trafod gyda'r Awdurdod er mwyn sicrhau dyluniad derbyniol a phriodol yn y dirwedd. Ers cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, mae'r gwaith wedi dechrau ar y bont.

ATODIAD 1: FFRAMWAITH MONITRO ARFARNIAD CYNALADWYEDD

Cyflwyniad

Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol yr oedd yn ofynnol i Awdurdodau i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ar eu cynlluniau. Er mwyn sicrhau bod cyflwr yr amgylchedd yn cael ei fonitro yn barhaus drwy gydol cyfnod Cynllun Datblygu Lleol Eryri cafodd fframwaith monitro ei gynhyrchu sy'n cynnwys 21 o amcanion sy'n cael eu torri i lawr i 53 o ddangosyddion fel y dengys Tabl 1 Fframwaith Monitro Arfarniad Cynaladwyedd sy’n atodedig.

Mae'r Awdurdod wedi nodi nifer o ddangosyddion o fewn y fframwaith monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd lle nad oes gwybodaeth ar gael. Mae hefyd yn ddangosyddion lle nad yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi trefn fonitro ddefnyddiol. Lle nad yw'r wybodaeth ar gael ac mae'n amlwg na fydd yn dod ar gael yn y blynyddoedd i ddod, bydd yr Awdurdod yn hepgor y dangosyddion o'r fframwaith ac fe fydd hynny wedi cael ei nodi fel y cyfryw yn yr adran dadansoddi. Fodd bynnag, lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y dangosyddion yn aros yn y fframwaith lle mae'r Awdurdod yn credu efallai y bydd y wybodaeth ar gael yn y dyfodol, megis setiau data o'r cyfrifiad sydd eto i’w rhyddhau.

Mae yna hefyd nifer o ddangosyddion o fewn y fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol lle nad yw gwybodaeth un ai ar gael / yn cael ei ddiweddaru ar sail flynyddol. Gan mai diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau o flwyddyn i flwyddyn nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddangosyddion defnyddiol. Maent fodd bynnag wedi cael eu cadw er mwyn gosod llinell sylfaen a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn i weld a oes modd dod o hyd i ffynonellau eraill o wybodaeth.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y fframwaith monitro wedi cael eu casglu o wahanol ffynonellau gwahanol a gan asiantaethau , mae rhai yn darparu'r wybodaeth mewn pryd ar gyfer yr AMB tra bo’r Awdurdod yn dal i aros am wybodaeth gan asiantaethau eraill, ac mae hyn wedi ei nodi ar y dangosyddion perthnasol o fewn y fframwaith. Gall hefyd fod yn bosibl yn y blynyddoedd dilynol i gyflwyno dangosyddion defnyddiol ychwanegol lle mae data ar gael yn rhwydd.

TABL 1 Fframwaith Monitro Arfarniad Cynaladwyedd

	Amcan GC	Dangosydd Monitro	Ffynhonnell Data	Dadansoddiad
1	Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu	Cymhareb o ynni adnewyddadwy (solar, gwynt domestig a hydro) caniatâd cynllunio prosiect a roddwyd yn erbyn ceisiadau bob blwyddyn cynllunio	APCE	O'r holl ganiatâdau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn mae 2.4% wedi bod ar gyfer Solar, 1.8% ar gyfer Hydro a 0.6% ar gyfer Gwynt. Trwy bolisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach. O'r 26 o geisiadau a dderbyniwyd am gynlluniau ynni adnewyddadwy rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd ar gyfer 24
		Ardaloedd mawn a phriddoedd organig a gollwyd o ganlyniad i geisiadau cynllunio newydd	CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru)	Nid yw'r data sydd wedi cael ei roi i'r Awdurdod ar ffurf sy'n galluogi'r Awdurdod i fonitro y dangosydd hwn. Bydd y dangosydd yn aros yn y fframwaith ar gyfer y flwyddyn hon tra bo'r Awdurdod yn ymdrechu i adnabod ffynhonnell arall. Nid yw'r Awdurdod wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad mawr newydd a fyddai'n debygol o arwain at golli priddoedd na mawn yn ystod cyfnod yr AMB
		Nifer o lwybrau trafnidiaeth a amharwyd gan lifogydd	CNC	Nid oes unrhyw lwybrau trafnidiaeth wedi cael eu tarfu gan lifogydd difrifol ar gyfer cyfnod yr adroddiad monitro
2	Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	Nifer y caniatâdau cynllunio yn groes i gyngor Asiantaeth yr Amgylchedd ar lifogydd	CNC	Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar hyn o bryd gan yr Awdurdod ond mae angen yr wybodaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy arfaethedig. Felly, mae'r Awdurdod yn gweithio gyda CNC i ddod o hyd i ffordd o gasglu'r wybodaeth hon
		Nifer o ddatblygiadau newydd mewn parthau llifogydd	APCE	Yn ystod cyfnod yr adroddiad monitro mae deg cais wedi cael caniatâd cynllunio mewn parthau llifogydd C1, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn geisiadau newid defnydd ar gyfer adeiladau presennol. Lle cafodd datblygiadau newydd ganiatâd mae amodau arnynt fel y cynghorir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Saith cais gafodd ganiatâd cynllunio mewn parthau llifogydd C2; fodd bynnag fel uchod roedd y rhan fwyaf ar gyfer newid defnydd adeiladau presennol neu addasu adeiladau presennol. Hefyd roedd cais ar gyfer codi pont droed
		Nifer o ddatblygiadau newydd yn ymgorffori SuDS fel cymhareb o gyfanswm y caniatadau cynllunio a roddwyd	APCE	Nid yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod ar hyn o bryd

3	Hyrwyddo'r defnydd o ddeunydd cynaliadwy o ffynonellau lleol gan gynnwys ynni	Nifer a math o gynlluniau ynni adnewyddadwy gyda chaniatâd cynllunio y flwyddyn	APCE	O gyfanswm nifer y ceisiadau a ganiatawyd gan yr Awdurdod yn ystod cyfnod AMB roedd 2.4% ar gyfer Solar, 1.8% ar gyfer Hydro a 0.6% ar gyfer Gwynt
		Nifer y datblygiadau newydd yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunydd eilaidd fel canran o gyfanswm y nifer o geisiadau cynllunio a roddwyd bob blwyddyn	APCE	Nid yw'r Awdurdod yn monitro faint o ddatblygiadau newydd sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu. Nid yw'n ddangosydd y gall yr awdurdod ei fonitro yn hawdd ac felly bydd yn cael ei hepgor o'r fframwaith monitro y flwyddyn nesaf
		Nifer o ddatblygiadau a roddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer sydd wedi ennill gwobrau dylunio gwyrdd, fel canran o gyfanswm y nifer o geisiadau cynllunio a roddwyd bob blwyddyn	APCE	Nid yw hyn yn ddangosydd y gellir ei monitro'n hawdd gan yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar unrhyw wobrau dylunio gwyrdd y daw'n ymwybodol ohonynt.
4	Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a lleihau effaith ceir, cludo nwyddau ar y ffyrdd a seilwaith	Pellter datblygiadau newydd o wasanaeth cludiant cyhoeddus	APCE	Oherwydd y polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol y mae mwyafrif helaeth o ddatblygiadau newydd yn cael eu lleoli o fewn ffiniau aneddiadau ac felly mewn lleoliadau cynaliadwy, yn agos at arosfannau bws a gorsafoedd trên presennol. Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd sy'n cael eu lleoli yng nghefn gwlad agored, oddi wrth trafnidiaeth gyhoeddus
		Teithio i'r gwaith trwy fodd	Cyfrifiad	Nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto ar gyfer y Parc Cenedlaethol o gyfrifiad 2011. Dylai'r data ar gael yn hwyr yn 2013/ yn gynnar yn 2014
		Pellter cyfartalog a deithir i'r gwaith	Cyfrifiad	Nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto ar gyfer y Parc Cenedlaethol o gyfrifiad 2011. Dylai'r data ar gael yn hwyr 2013/ yn gynnar yn 2014. Bydd setiau data pellter ychwanegol i waith yn cael eu rhyddhau o gwmpas 2015/2016
		Nifer o wasanaethau bws sy'n rhedeg yn y Parc Cenedlaethol	APCE , Gwynedd, Cowny	Yn ôl amserlenni bysiau Cyngor Conwy / Gwynedd mae 31 o wasanaethau bws yn rhedeg trwy'r Parc Cenedlaethol (Osgoi dyblygu gwaith hy un daith yn rhedeg trwy Wynedd a Chonwy ddim ond yn cael eu cyfrif unwaith) ar hyn o bryd

5	Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd	Maint y tirlun Eithriadol ac Uwchradd ei Werth fel y'i diffinnir o dan bum agwedd LANDMAP: yn ddiwylliannol, daearegol, cynefinoedd tirweddol yn weledol a synhwyraidd	APCE CCGC	Roedd y canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffinnir o dan LANDMAP fel a ganlyn; • Gweledol a Synhwyraidd - 49.2% (64 allan o 130 o ardaloedd) o ardaloedd gweledol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Gwerth Uchel neu Eithriadol • Diwylliannol - 94.7% (54 allan o 57 ardal) o feysydd diwylliannol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Gwerth Uchel neu Eithriadol • Daearegol - 93.2% (110 allan o 118 o ardaloedd) o ardaloedd daearegol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Gwerth Uchel neu Eithriadol • Hanesyddol - 89.3% (134 allan o 150 o ardaloedd) o ardaloedd hanesyddol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Gwerth Uchel neu Eithriadol • Tirwedd Cynefinoedd-37.3% (151 allan o 405 o ardaloedd) o ardaloedd tirwedd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Gwerth Uchel neu Eithriadol
		Nifer o geisiadau cynllunio lle rhoddwyd caniatâd mewn ardaloedd o werth eithriadol ac uchel eu gwerth fel y'i diffinnir gan LANDMAP	LANDMAP	Wrth ystyried yr haenau gweledol a synhwyraidd, ychydig iawn o geisiadau am ganiatâd cynllunio a roddwyd mewn ardaloedd a ddiffinnir fel rhai gwerth uchel neu eithriadol. Ni ystyriwyd bod y ceisiadau yn niweidiol i'r dirwedd yn y lleoliadau hyn. Mae'r Awdurdod yn defnyddio haenau LANDMAP mewn lleoliadau lle maent yn ystyried eu bod yn sensitif i helpu i lywio penderfyniadau lle bo hynny'n briodol
		Maint yr ardaloedd tawel yn y Parc Cenedlaethol	APCE	Ar lefel Cyngor Gwynedd a Lefel Cyngor Bwrdeistref Conwy mae'r data hwn ar gael yn unig. Yn 2009 cafodd 67% o ardaloedd yng Ngwynedd eu dosbarthu fel 'tawel' a 63% o Gonwy. Yn ôl mapiau ardaloedd tawel yr Awdurdod yn adroddiad Cyflwr yr Parc yr oedd 67% o'r Parc Cenedlaethol yn cael ei gategoreiddio fel tawel. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei diweddaru bob blwyddyn ac felly nid yw'n ddangosydd defnyddiol mewn AMB. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ystyried cynnal asesiad awyr dywyll yn Hydref 2013 i asesu cyflwr y Parc Cenedlaethol, ac felly mae'n cael ei ystyried yn briodol i adael y dangosydd hwn yn yr AMB ac adrodd ar y cynnydd y flwyddyn nesaf
6	Gwarchod a gwella ansawdd aer	Lefelau llygryddion aer yn y Parc Cenedlaethol - yn seiliedig ar Adolygiad Ansawdd Aer ac Asesiadau ar gyfer Gwynedd a Chonwy	Cynghorau Gwynedd a Chonwy	Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol o fewn y categori 100% lleiaf difreintiedig 100, o ran y Mynegai Allyriadau Aer yn y WIMD 2013. Mae rhai ardaloedd o amgylch y Harlech / Talsarnau, ardal Dyffryn Ardudwy a Betws Garmon o fewn y 50% mwyaf difreintiedig o ran Allyriadau Aer

7	Gwarchod ansawdd y pridd trwy leihau halogiad a diogelu swyddogaeth y pridd	Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys adfer y safle a maint y tir a adferwyd	APCE	Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod, ychydig iawn o safleoedd halogedig sydd yna o fewn y Parc Cenedlaethol. Petai safle sydd angen adferiad yn dod ymlaen fel cais byddai'n rhaid tynnu sylw. Does dim ceisiadau sydd angen adfer wedi derbyn caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod yr AMB
		Ardaloedd mawn a phriddoedd organig a gollwyd o ganlyniad i geisiadau cynllunio newydd		Fel yr amlinellwyd yn flaenorol nid yw'r data a ddarperir i'r Awdurdod yn ddigon manwl i nodi 'lleiniau' bach. Mae'r ardaloedd mwyaf pwysig o fawn a phriddoedd organig yn cael eu diogelu gan bolisïau yn y cynllun ac felly mae datblygiad yn annhebygol iawn o ddigwydd yn yr ardaloedd hyn. Oherwydd y ffordd y mae'r data ar gael i ni, ni fydd yn bosibl i fonitro'r dangosydd hwn, bydd y dangosydd yn aros yn y fframwaith monitro er mwyn gweld a fydd y data ar gael mewn fformat derbyniol y gellir ei fonitro.
		Canran y datblygiadau newydd lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol		Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar hyn o bryd gan yr Awdurdod ond mae angen yr wybodaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Dangosyddion Cynaliadwyedd. Felly, mae'r Awdurdod yn gweithio ar ffordd o gasglu'r wybodaeth hon a bydd ar gael y flwyddyn nesaf. Mae'r polisïau yn y CDLl yn cefnogi defnyddio tir llwyd dros dir gwyrdd lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol
8	Diogelu daeareg a geomorffoleg Parc Cenedlaethol	Mae cyflwr RIGS yn y Parc Cenedlaethol	Gwrp RIGS	Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd, ond bydd y dangosydd yn aros yn y fframwaith monitro fel bod pan fydd y wybodaeth ar gael y gellir ei ychwanegu.
9	Gwarchod a gwella bioamrywiaeth	Cyflwr y safleoedd dynodedig, gan gynnwys AGA, ACA, Ramsar, SoDdGA, GNC, GNL	APCE CNC	Mae gwybodaeth a dderbyniwyd gan Adnoddau Naturiol Cymru yn dangos y canlynol. ACA • 39 uned (7.6%) o dan reolaeth cadwraeth briodol • 435 o unedau (85.0%) yn cael eu diffinio fel rhai sydd angen gweithredu arnynt • 38 o unedau (7.4%) Mae angen mwy o ymchwil i fel sail penderfyniad SPA • 5 uned (3.4%) o dan reolaeth cadwraeth briodol • 142 o unedau (96.6%) yn cael eu diffinio fel rhai sydd angen gweithredu SoDdGA • 177 o unedau (23.7%) o dan reolaeth cadwraeth briodol • 531 o unedau (96.6%) yn cael eu diffinio fel rhai sydd angen

				gweithredu • 40 uned (5.3%) Mae angen mwy o ymchwil i benderfyniad sylfaen RAMSAR • 2 uned (100%) yn cael eu diffinio fel rhai sydd angen gweithredu
9	Gwarchod a gwella bioamrywiaeth	Cyflwr a statws rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth)		Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd oherwydd nid yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd adnoddau cyfyngedig
9	Gwarchod a gwella bioamrywiaeth	Nifer o ganiatadau cynllunio sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd CGBLl		Er nad yw hyn yn cael ei fonitro ar hyn o bryd gan yr Awdurdod o ganlyniad i adnoddau cyfyngedig mae'r polisïau o fewn y CDLl yn sicrhau bod rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael eu diogelu. O fewn cyfnod y AMB mae 27 caniatâd wedi cael eu rhoi gydag amodau er mwyn diogelu rhywogaethau o ystlumod
9	Gwarchod a gwella bioamrywiaeth	Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n arwain at golli gwrychoedd a ffiniau caeau (lle mae hyn yn digwydd dylai manylion y golled am rywogaethau gael eu cydgasglu)		Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan fod hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd adnoddau cyfyngedig. Mae 14 o gynlluniau plannu coed o fewn y Parc Cenedlaethol yn ystod y cyfnod yr AMB
10	Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y dreftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol	Cyflwr Ardaloedd Cadwraeth a'r graddau y mae datblygiadau newydd yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth.	APCE Cadw Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd	Dim ond un cynllun rheoli sydd mewn grym yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r datblygiadau yn ardaloedd Cadwraeth Dolgellau yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli ar gyfer yr ardal. Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd wrthi'n ymgymryd â gwaith ar yr Ardaloedd Cadwraeth sy'n weddill, a bwriedir adrodd am y cynnydd a wneir yn y fframwaith monitro'r flwyddyn nesaf.
10	Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y dreftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol	Cyflwr Henebion Rhestredig.	Cadw	Nid yw Cadw wedi rhannu unrhyw wybodaeth ynglŷn â chyflwr yr Henebion Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r polisïau yn y CDLl yn diogelu'r Henebion Rhestredig rhag datblygiadau amhriodol.
10	Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y	Nifer yr Adeiladau Rhestredig mewn perygl.		Mae data ynghylch cyflwr yr Adeiladau Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei gasglu'n rheolaidd. Mae'r wybodaeth isod yn dyddio o fis Ebrill 2013

	dreftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol			• Cyfanswm yr adeiladau mewn perygl (Categori 1 – Risg Eithafol) = 47 • Cyfanswm yr adeiladau mewn perygl (Categori 2 – Risg Difrifol) = 62 • Cyfanswm yr adeiladau mewn perygl (Categori 3 – Mewn Perygl) = 209 • Cyfanswm yr adeiladau mewn perygl (Categori 4 – I'w wylio) = 308
11	Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad treflun	Cyflwr Ardaloedd Cadwraeth a'r graddau y mae datblygiadau newydd yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth.	APCE Cadw Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd	Unwaith y mabwysiadir y cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth, bwriedir monitro'r dangosydd hwn. Ar hyn o bryd, mae'r polisïau yn y CDLl yn sicrhau nad oes datblygiadau amhriodol yn digwydd mewn ardaloedd cadwraeth.
11	Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad treflun	Nifer y datblygiadau newydd â datganiadau dylunio fel canran o gyfanswm y ceisiadau cynllunio.		Cyflwynir Datganiad Dylunio a Mynediad gyda phob cais. Nid yw'r dangosydd hwn yn cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol i helpu i gyflawni'r amcan hwn. Bydd yn cael ei hepgor o'r Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.
11	Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad treflun	Nifer y datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio sydd wedi sicrhau gwobrau dyluniad gwyrdd fel canran o gyfanswm y ceisiadau cynllunio a ganiateir bob blwyddyn.		Fel yr amlinellwyd uchod, nid yw hwn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod. Bydd yn cael ei hepgor o'r fframwaith monitro.
12	Gwarchod, hybu a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg yn Eryri	Canran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol, ynghyd â'u dosbarthiad	APCE a'r Cyfrifiad	Daw'r wybodaeth a ddangosir isod o Gyfrifiad 2011; • gallai 58.6% o bobl ym Mharc Cenedlaethol Eryri siarad Cymraeg, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% • gallai 49.7% o bobl ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.6% O ran dosbarthiad, mae'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd arfordirol gorllewinol Abermo, Tywyn ac Aberdyfi. Roedd 54.6% o bobl yn byw yn Llangelynnin heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg o gwbl. Roedd yr ardaloedd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys Llanuwchllyn a'r Bala; roedd 78.6% o bobl yn byw yn Llanuwchllyn yn gallu siarad Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2001, canran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc

				Cenedlaethol oedd 62.1%. Mae hyn yn golygu bod gostyngiad o 3.5% wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ers 2001. Hefyd, yn ystod y Cyfrifiad blaenorol, gallai 54.5% o boblogaeth y Parc siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Roedd hyn wedi gostwng 4.8% erbyn Cyfrifiad 2011. Mae'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried anghenion a diddordebau'r iaith Gymraeg. Mae'r CDLl yn cefnogi datblygiadau sy'n cynnal neu'n gwella'r iaith Gymraeg. Gwrthodir unrhyw ddatblygiad sy'n peri niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg. Rhaid i ddatblygiadau a all gael effaith sylweddol gyflwyno datganiadau ieithyddol cymunedol, neu asesiadau i alluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u heffaith. Mae'r Awdurdod yn annog defnyddio arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ar ddatblygiadau newydd a'r rhai sy'n bodloni'n barod.
13	Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr	Canran afonydd Eryri sydd wedi'u dosbarthu fel rhai da iawn, da neu gymharol dda o ran ansawdd cemegol a biolegol	Cyfoeth Naturiol Cymru	Yn ôl y data a gymerwyd o'r 'Pecyn Tystiolaeth Leol - Eryri 2013' a gynhyrchwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, mae 122 o afonydd wedi'u hasesu yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar yr asesiadau a gynhaliwyd ar hyd yr afonydd hyn; Cemegol • roedd 14 afon wedi'u dosbarthu fel rhai o ansawdd 'da' • nid oedd angen cynnal asesiad ar 108 afon Statws Ecolegol • roedd 1 afon wedi'i dosbarthu fel un ansawdd 'uchel' • roedd 35 afon wedi'u dosbarthu fel rhai o ansawdd 'da' • roedd 80 afon wedi'u dosbarthu fel rhai o ansawdd 'cymedrol' • roedd 6 afon wedi'u dosbarthu fel rhai o ansawdd 'gwael'
13	Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr	Traethau Baner Las a Gwobr Arfordir Glas yn Eryri	Cyfoeth Naturiol Cymru	Nid oedd Traethau Baner Las ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn ystod 2012 - 2013. Fodd bynnag, roedd traethau Harlech, Llandanwg a Bennar oll yn gymwys am wobr Arfordir Glas 2013. Roedd Harlech a Llandanwg hefyd yn gymwys am Wobr Glan y Môr (gwledig) 2013.
13	Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr	Ansawdd dyfroedd ymdrochi ac aberoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'r data gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer dyfroedd ymdrochi wedi'i nodi isod; • Harlech – Safon uwch • Dyffryn (Llanenddwyn) - Safon uwch • Llandanwg - Safon uwch • Tal y Bont - Safon uwch • Aberdyfi – Safon ofynnol • Tywyn - Safon ofynnol • Y Friog - Safon uwch • Abermo - Safon uwch

13	Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr	Amcan o'r defnydd a wneir o ddŵr mewn cartrefi (litrau'r pen y dydd)	Dŵr Cymru	Mae'r data gan gydweithwyr Dŵr Cymru yn amcangyfrif y canlynol; • Hh o ran defnydd fesul y pen o'r boblogaeth wedi'i fesur (l/pen/dydd) - Cyfartaledd o 114.86
14	Hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, ac ailddefnyddio ac ailgylchu mwy.	Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy a gafodd ganiatâd cynllunio yn y Parc Cenedlaethol, a'u pellter o'r aneddiadau.	APCE	Ni chafwyd ceisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy yn ystod y cyfnod monitro hwn.
14	Hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, ac ailddefnyddio ac ailgylchu mwy.	Canran y safleoedd ailgylchu gwastraff cartref a diwydiannol / masnachol.	Ystadegau Cymru	Roedd yr wybodaeth hon ar gael i lefel cyngor Gwynedd a Chonwy yn unig, a manylir arnynt isod; Cyfradd ailgylchu / compostio cartrefi (canran) 2011-2012 • Gwynedd = 46.9% • Conwy = 51.3%
15	Gwella nifer ac ansawdd y mannau agored cyhoeddus	Mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau newydd yn y Parc Cenedlaethol.	APCE	Cafwyd 10 cais yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol, fodd bynnag nid oes unrhyw un ohonynt wedi arwain at golli mannau agored i ddatblygiadau newydd.
16	Darparu tai i fodloni angen lleol	Tai fforddiadwy a gwblhawyd fel canran o'r holl dai newydd a gwblhawyd	APCE	Roedd 64.9% o'r holl dai a gwblhawyd yn APCE yn rhai fforddiadwy. Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol, cafodd 57 o dai eu cwblhau, ac roedd 37 o'r rheiny'n fforddiadwy.
16	Darparu tai i fodloni angen lleol	Cymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd incwm	Cofrestrfa Tir a Caci	Nid yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd. Fe ddylai'r data gael ei ryddhau yn ystod mis Hydref / Tachwedd 2013, a fydd yn golygu y gellir mynd ati i ddadansoddi. Adroddir am unrhyw wybodaeth sydd ar gael yn Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn nesaf.
17	Hybu mynediad gwell i wasanaethau a mwynderau lleol i bawb	MALIC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Parth Amddifadedd Mynediad Daearyddol at Wasanaethau	MALIC	Roedd y data hwn ar gael i lefel cyngor Gwynedd a Chonwy yn unig, ynghyd â lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Ystyriwyd bod ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol, megis Llanuwchllyn, Brithdir a Llanfachraeth / Ganllwyd ac Uwch Conwy o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau, yn ôl MALIC 2011. Roedd trefi megis y Bala a Dolgellau yn y 50% lleiaf difreintiedig. Yn gyffredinol, mae ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol yn tueddu i fod yn ddifreintiedig o ran mynediad at wasanaethau.
17	Hybu mynediad gwell i wasanaethau a mwynderau lleol i bawb	Nifer y cyfleusterau cymunedol newydd a gafodd ganiatâd cynllunio bob blwyddyn, a'u hagosrwydd at gyfleusterau cludiant cyhoeddus.	APCE	Cafwyd dau gais am gyfleusterau cymunedol yn y Parc yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Ysgol newydd yn Llanegryn ac estyniad ar ysgol yn Llanuwchllyn.

18	Hybu cymunedau diogel, iach a chynaliadwy	Canran y bobl â salwch cyfyngus hirdymor yn Eryri	APCE	Roedd data o gyfrifiad 2011 yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles y boblogaeth. Dangosir gwybodaeth am bobl â salwch cyfyngus hirdymor ym Mharc Cenedlaethol Eryri isod; • Gweithgareddau beunyddiol wedi'u cyfyngu'n sylweddol - 9.4% (2,410) • Gweithgareddau beunyddiol wedi'u cyfyngu ychydig - 12.0% (3,086)
18	Hybu cymunedau diogel, iach a chynaliadwy	Canran y bobl ag iechyd 'da' dros y 12 mis diwethaf yn Eryri	Cyfrifiad	Roedd y data o gyfrifiad 2011 yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles y boblogaeth. Dangosir gwybodaeth am iechyd pobl sy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri isod; • nododd 32.8% (8,419) o bobl sy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri bod eu hiechyd yn 'dda' adeg Cyfrifiad 2011.
18	Hybu cymunedau diogel, iach a chynaliadwy	MALIC – Parth Amddifadedd Iechyd	MALIC	Roedd y data hwn ar gael i lefel cyngor Gwynedd a Chonwy yn unig, ynghyd â lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Yn ôl data MALIC 2011, mae'r rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol o fewn y 50% lleiaf difreintiedig o ran Amddifadedd Iechyd.
19	Hybu a hwyluso dulliau gwell o gynnwys y gymuned	MALIC – Parth Amddifadedd Mynediad Daearyddol at Wasanaethau	APCE	Roedd y data hwn ar gael i lefel cyngor Gwynedd a Chonwy yn unig, ynghyd â lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Ystyriwyd bod ardaloedd gwledig y Parc Cenedlaethol, megis Llanuwchllyn, Brithdir a Llanfachraeth / Ganllwyd ac Uwch Conwy o fewn y 10% mwyaf difreintiedig, yn ôl MALIC 2011. Roedd trefi megis y Bala a Dolgellau yn y 50% lleiaf difreintiedig. Yn gyffredinol, mae ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol yn tueddu i fod yn ddifreintiedig o ran mynediad at wasanaethau.
19	Hybu a hwyluso dulliau gwell o gynnwys y gymuned	Nifer y cyfleusterau cymunedol newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn y Parc Cenedlaethol.	APCE	Cafwyd dau gais am gyfleusterau cymunedol yn y Parc yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Ysgol newydd yn Llanegryn ac estyniad ar ysgol yn Llanuwchllyn. Mae'r dangosydd hwn wedi'i ailadrodd o'r uchod, ac felly bydd yn cael ei hepgor o'r Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.
19	Hybu a hwyluso dulliau gwell o gynnwys y gymuned	Pellter cyfleusterau cymunedol newydd a gafodd ganiatâd cynllunio o wasanaethau cludiant cyhoeddus.	APCE	Roedd y cyfleusterau cymunedol yn agos at, neu o fewn yr aneddiadau presennol, ac felly ar y llwybrau bysus presennol.
20	Hybu cysylltiadau cludiant da i gefnogi'r economi leol	Pellter safleoedd cyflogaeth newydd o wasanaethau	APCE	Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

		cludiant cyhoeddus.		
20	Hybu cysylltiadau cludiant da i gefnogi'r economi leol	Y pellter a deithir i'r gweithle ar gyfartaledd	Cyfrifiad	Nid yw'r wybodaeth hon eto ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol o gyfrifiad 2011. Dylai'r data fod ar gael ddiwedd 2013 / dechrau 2014. Bydd cyfresi data ychwanegol ar bellteroedd i weithleoedd yn cael eu rhyddhau oddeutu 2015/2016.
21	Helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth a busnesau lleol sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.	Cyfraddau gweithgareddau economaidd yn y Parc Cenedlaethol.	Cyfrifiad	Mae 67% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn economaidd weithgar yn y Parc Cenedlaethol, yn ôl cyfrifiad 2011. Mae hyn yn cymharu â 65% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru sy'n economaidd weithgar. Daw'r wybodaeth hon o Gyfrifiad 2011. Yn adroddiad monitro 2014, cyfrifir y gyfradd gweithgarwch drwy ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill. Roedd data o Gyfrifiad 2001 yn dangos bod 63.2% o'r boblogaeth yn economaidd weithgar, sy'n golygu y bu cynnydd o 3.8% yng nghanran y bobl sy'n economaidd weithgar erbyn Cyfrifiad 2011.
21	Helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth a busnesau lleol sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.	Nifer y datblygiadau cyflogaeth newydd â data wedi'i gasglu am y lleoliad a'r math o waith.	APCE	Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd yn ystod y flwyddyn.

ATODIAD 2 CYNNYDD CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

CCA rhif	Enw	Cynnydd
1	Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru	Mabwysiadwyd Medi 2011
2	Canllawiau Datblygu	Mabwysiadwyd Medi 2011
3	Cynllunio a'r Iaith Gymraeg	Mabwysiadwyd Medi 2011
4	Tai Fforddiadwy	Mabwysiadwyd Medi 2011
5	Rhwymedigaethau Cynllunio	Mabwysiadwyd Chwefror 2012
6	Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth	Mabwysiadwyd Ebrill 2012
7	Tirweddau Eryri	Bwriedir mabwysiadu 2013.
8	Llety Ymwelwyr	Mabwysiadwyd Hydref 2012
9	Arallgyfeirio ar Ffermydd	Mabwysiadwyd Hydref 2012
10	Ynni Adnewyddadwy	Ymgynghorwyd ar y CCA Gwanwyn 2013
	Dylunio Cynaliadwy Nodedig Lleol	Yn cael ei ddrafftio
	Yr Amgylchedd Hanesyddol	Yn cael ei ddrafftio

ATODIAD 3: CYNNYDD AR SAFLEOEDD TAI A DDYRANNWYD

Dyraniadau	Unedau Arfaethedig	Monitro Cynnydd (trafodaethau cyn cais/ caniatâd cynllunio / cwblhau)
Tir y tu ôl i'r Llew Coch yn Y Bala (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol). Rhyddhau 30 uned hyd at 2016 ac, os caiff ei adeiladu, y 25 uned sy'n weddill 2016-2022	55	Cyswllt wedi'i wneud gyda pherchennog y tir Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y safle ac mae'r perchennog yn awyddus i ddatblygu'r safle, gall symud y safle ymlaen yn gyflym pan fydd amodau'r farchnad yn newid
Tir yng Nghysgod y Coleg, Y Bala (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	30	Cwblhawyd 30 uned 2012-13.
Tir cyfagos i Bentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	10	Cyswllt wedi'i wneud gyda'r tirfeddiannwr - Cymdeithas Dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd sydd yn awyddus i ddatblygu'r safle yn y dyfodol agos.
Tir cyfagos i Gapel Horeb, Dyffryn Ardudwy (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	9	Trafodaeth cyn cyflwyno'r cais ar y gweill.
Talsarnau (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	6	Cyswllt wedi'i wneud gyda pherchennog y tir.
Llanfrothen (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	5	Cymdeithas Tai Eryri - cwblhau 4 uned fforddiadwy
Dolgellau (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	18	Cyswllt wedi'i wneud gyda'r tirfeddiannwr - Cymdeithas Dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae gan y Cynllun gymeradwyaeth ar gyfer GrantTai Cymdeithasol.
Llanuwchllyn (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	7	Tir ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd, Cynllun Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol posibl
Gellilydan (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	6	Cymdeithas Tai Eryri - cwblhau 6 uned fforddiadwy
Trefriw, tir drws nesaf i Dŷ Capel Peniel (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	5	Trafodaeth cyn cyflwyno cais ar y gweill
Trefriw, tir nesaf at Roualey Nursery (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	8	Trafodaeth cyn cyflwyno cais ar y gweill

Dolwyddelan (dau safle) (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	11	Cymdeithas Tai Clwyd – cwblhawyd 4 uned fforddiadwy. Tirfeddiannwr - Comisiwn Coedwigaeth yn bwriadu datblygu'r safle sy'n weddill yn y dyfodol agos.
Bryncrug (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	10	Cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer rhan o'r safle.
Llanegryn (50% marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	8	Cyswllt wedi'i wneud gyda perchennog y tir.
Penmachno (100% tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	10	Rhoddwyd caniatad cynllunio am 12 o unedau tai fforddiadwy.
Cyfanswm	**198**	